

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Interim: Llunio strategaeth ddatblygu ar gyfer y dyfodol

Casgliadau ac argymhellion cychwynnol



Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 12 Orchard Street, Bryste, BS1 5EH
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LE
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, Llundain, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711

E-bost: wavehill@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets

Rhagor o wybodaeth:

www.wavehill.com

<https://twitter.com/wavehilltweets>

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Awduron yr adroddiad:

Dr Dyfan Powel

Endaf Griffiths

John Pritchard

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn at Dyfan Powel (dyfan.powel@wavehill.com) yn y lle cyntaf

Dyddiad y ddogfen:

Fersiwn: Drafft Fewnol

Cyswllt y cleient:

Anwen Davies

Cynnwys

Tabl o dablau.....	4
Crynodeb Gweithredol.....	5
1 Cyflwyniad.....	9
1.1 Cefndir.....	9
1.2 Y ddogfen hon	11
1.3 Amseru / amserlen Arfor.....	11
1.4 Methodoleg.....	12
1.5 Natur y Broblem a Rhesymeg Arfor	12
2 Cymraeg a'r economi.....	14
2.1 Crynodeb o'r ymchwil desg.....	14
3 Ymchwil Pellach	23
3.1 Dadansoddiad econometreg o'r cyswllt rhwng yr economi a'r Gymraeg	23
3.2 Cyfweiliadau rhanddeiliaid.....	25
4 Proffil o ardal Arfor a Llinell Sylfaen	32
5 Casgliadau Interim ac Argymhellion Cychwynnol.....	36
5.1 Casgliadau Interim.....	36
5.2 Argymhellion Cychwynnol.....	39

Tabl o dablau

Tabl 1: Cyfernodau Cydberthyniad (*Correlation Coefficient*) (GYC a siaradwyr Cymraeg).....24

Crynodeb Gweithredol

Mae Arfor yn rhaglen sy'n gweithio ar draws Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr. Nod Arfor yw datblygu ymyraethau economaidd a fydd yn eu tro yn cael effaith gadarnhaol ar niferoedd siaradwyr a hyfywdra'r Gymraeg. Clustnodwyd cyllideb o £2m ar gyfer y cyfnod 2019-2021, ac mae'r gwariant a'r gweithredu yn mynd rhagddynt – nid gwaith a gwariant cyfredol Arfor yw ffocws y ddogfen hon.

Mae'r adroddiad hwn yn asesu data a thystiolaeth academaidd a pholisi er mwyn llunio argymhellion ar gyfer cynnal ac ehangu gweithredoedd ac effaith Arfor yn y dyfodol. Mae'r ddogfen yn dod i'r casgliad nad oes sail ddigonol i argymhell gweithredoedd penodol nac i ddatblygu Cynllun Strategol cynhwysfawr. Yn hytrach, argymhellir tri llwybr o weithgaredd pellach er mwyn datblygu ymyraethau economaidd sy'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.¹

Diffyg data ac ymchwil ar y cyswllt rhwng yr economi a'r iaith

Mae consensws ymysg academyddion, Llywodraeth Cymru a mudiadau cymdeithas sifil, bod prosesau ac ymyraethau economaidd yn cynnig modd o sicrhau cynaliadwyedd y Gymraeg, yn arbennig o fewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Ond yn aml wrth drafod perthnasedd yr economi a'r iaith, mae'r pwyslais yn cael ei roi ar y defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau neu ar fudd yr iaith i unigolion yn y farchnad lafur neu i fusnesau wrth fasnachu [h.y. yr iaith o fewn yr economi].

Prin iawn yw'r drafodaeth ar brosesau economaidd a'u heffaith andwyol neu gadarnhaol ar yr iaith [h.y. yr economi'n effeithio ar yr iaith]. Yn wir, fel y nododd adolygiad cynhwysfawr diweddar o'r data,² prin yw'r dystiolaeth ac ymchwil sydd yn ymwneud â'r cyswllt rhwng prosesau economaidd a'r iaith. Mae data yn cynnig hefyd nad yw'r ymdrechion sydd wedi bod ar waith hyd heddiw wedi llwyddo i wyrdroi sefyllfa'r Gymraeg yn ddigonol. Anodd felly yw argymhell unrhyw ymyraethau penodol yn seiliedig ar yr ymchwil neu'r profiad sydd ar gael.

Dealltwriaeth o'r 'broblem' a rhesymeg Arfor

Un ddamcaniaeth boblogaidd ymysg academyddion, llunwyr polisi a rhanddeiliaid, yw mai'r patrymau ymfudo yw'r prif ffactor sy'n effeithio'n andwyol ar sefyllfa'r Gymraeg. Y 'broblem' yw bod unigolion ifanc yn gadael yr ardal gan effeithio'n andwyol ar yr economi – dyma unigolion sydd â chymwysterau gwerthfawr ac sy'n weithgar yn economaidd. Canlyniad pellach yw'r cwmp cyson yn niferoedd a chanran y siaradwyr Cymraeg, a dirywiad hyfywdra, bywiogrwydd a chynaliadwyedd yr iaith yn yr ardaloedd hynny.

¹ Gellir diffinio 'effaith gadarnhaol' fel cyfraniad at gynyddu niferoedd y siaradwyr a/neu ddefnydd, cynaliadwyedd neu statws y Gymraeg yn yr ardal. Ond mae sgôp i ddatblygu'r diffiniad hwn ymhellach yn sgil y ddealltwriaeth fydd yn cael ei datblygu.

² Thomas, H. Duggan, B. Glover A. a Glyn, E, (2020) Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Sail yr ymfudo yw'r dyhead ymysg pobl ifanc am well swyddi a chyfleoedd cyflogaeth sydd ddim ar gael yn ardal Arfor. Yr ymateb rhesymegol sy'n deillio o'r esboniad hwn yw'r angen i 'greu mwy a gwell swyddi' yn ardal Arfor – rhesymeg swyddogol rhaglen Arfor – er mwyn eu hannog i aros. Ond mae'r data a'r ymchwil sydd ar gael yn cynnig bod y 'broblem' yn fwy cymhleth a chyferbyniol, ac fe ddylid ystyried atebion ehangach.

Y Data a'r Dystiolaeth sydd ar gael

Mae data ystadegol yn cefnogi'r ddamcaniaeth bod pobl ifanc yn gadael ardal Arfor, yn bennaf i Loegr. Mae cefnogaeth felly i'r awgrym bod patrymau mudo yn niweidiol i'r economi ac yn debygol o fod yn niweidiol i'r iaith, wrth i bobl ifanc (ac felly siaradwyr Cymraeg) adael yr ardal.

Serch hyn, ychydig o dystiolaeth sy'n cefnogi'r rhagdybiaeth mai oherwydd rhesymau cyflogaeth yn unig y mae pobl ifanc yn gadael ardal Arfor – er ei fod yn ffactor allweddol. Nid oes dystiolaeth ychwaith sy'n awgrymu y byddai pobl ifanc yn ymatal rhag gadael yr ardal pe bai mwy neu well swyddi ar gael yn lleol. Yn wir, mae dystiolaeth gyferbyniol yn cynnig bod rhesymau pobl ifanc yn gymysg ac yn gymhleth, ac yn cwmpasu materion megis hunaniaeth a chyfleoedd bywyd. At hynny, anaml y bydd astudiaethau o allfudo yng Nghymru yn archwilio ffactorau sy'n gysylltiedig â rhyw, hil neu ddsbarth. Mae'r bwlch rhwng cymwysterau a'r farchnad lafur, patrymau bywyd a gwaith, yn ogystal â diffygion isadeiledd yr ardal yn ffactorau pellach i'w hystyried. Ymhellach, mae dadansoddiadau economaidd yn y cyfamser, yn codi amheuan ynghylch unrhyw berthynas bositif rhwng datblygiad economaidd a chynnydd yn niferoedd siaradwyr Cymraeg. Hynny yw, nid yw'r dystiolaeth bod twf economaidd yn arwain at effaith bositif ar niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn glir.

Ond mae data ystadegol hefyd yn dangos bod niferoedd uchel o bobl ifanc yn dod i ardal Arfor – yn debygol iawn er mwyn astudio yn y prifysgolion – a bod nifer y bobl dros 30 mlwydd oed sy'n dod i'r ardal bob blwyddyn yn uwch ers dechrau'r ddegawd. Mae diffyg data i gynnig llawer o fanylder neu esboniad i'r patrymau hyn, ond nid mater o bobl ifanc yn gadael yn unig ydyw.

Casgliadau a thrafodaeth

Wrth gamu'n ôl o'r ffocws ar fudo, gwelwn fod y patrymau mudo ond yn un o nifer o heriau economaidd sy'n wynebu'r ardal, ac sy'n adlewyrchu patrymau tebyg i unrhyw ardal wledig arall. Dydy ardal Arfor ddim yn wynebu heriau economaidd neu ddemograffig unigryw. Mae ymdrechion i wyrdroi tueddiadau mudo o ardal wledig i ddinesig ymysg yr ifanc felly yn ceisio gwneud rhywbeth nad yw nifer, os unrhyw ardal wledig debyg arall wedi llwyddo gwneud.

Mae'r ddogfen hon yn cynnig bod heriau economaidd ardal Arfor yn ehangach na mudo, sydd yn eu tro yn cyflwyno heriau pellach i annog pobl ifanc i aros yn yr ardal drwy greu rhagor o swyddi a gwell swyddi.

Er gwaethaf llwyddiant cymharol y farchnad lafur yn yr ardal sydd, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi llwyddo i gadw'n agos at batrymau Cymreig, mae'r rhagolygon yn cynnig bod gwendidau strwythurol yn economi'r ardal. Mae'r bwlch rhwng cymwysterau a'r farchnad lafur, patrymau bywyd a gwaith, yn ogystal â diffygion isadeiledd yr ardal yn ffactorau pellach i'w hystyried fel sail a ffactorau sy'n arwain at y mudo. Mae'r rhain hefyd yn debygol o arwain at wanhau'r ardal yn y dyfodol gan roi mwy o bwysau ar bobl ifanc i adael yr ardal. Mae economi'r ardal hefyd wedi'i gogwyddo tuag at sectorau sydd â sylfaen gwerth is, a rhagolygon twf gwannach. Mae rhai sectorau penodol, megis amaeth, yn debygol hefyd o wynebu newidiadau strwythurol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Yn olaf, mae modd ystyried ffactorau ynghylch globaleiddio ac ehangu marchnadoedd llafur fel rhai sy'n ddylanwadol ar ddefnydd iaith.

Mae'r atebion a'r ymyraethau bur economaidd sydd eu hangen felly yn debygol o orfod canolbwyntio ar ddatblygu amrywiaeth economaidd a chefnogi sectorau sy'n debygol o weld gwerth a chyflogau uwch. Ond, does dim data i argymhell pa sectorau neu ffyrdd o weithio sy'n debygol o arwain at effaith bositif ar yr iaith yn ogystal â'r economi.

Gellir gweld ymdrechion i ddenu pobl a galluogi pobl i symud i'r ardal, neu yn ôl i'r ardal yn hwyrach yn eu bywydau yn ffyrdd amgenach ac efallai mwy effeithiol yn y cyfamser o wneud yn iawn am golli unigolion ifanc. Ond serch rhai ymdrechion yn y gorffennol does dim ystod eang o ddata i gefnogi neu hyrwyddo ymdrechion penodol.

Mae'n rhaid ystyried ymyrraeth economaidd yn ei chyd-destun ehangach hefyd. Er mai bwriad Arfor yw datblygu ymyraethau economaidd sy'n cael effaith gadarnhaol yn ieithyddol, maent yn debygol o gefnogi, a chael eu cefnogi, gan ystod o bolisiau cymdeithasol ehangach sy'n galluogi'r di-Gymraeg i gaffael yr iaith ac i hwyluso ei defnydd. Bydd gwella neu ddatblygu apêl a safon bywyd yn yr ardaloedd gwledig hyn hefyd yn elfennau allweddol pellach o unrhyw ddull sy'n mynd i'r afael â mater allfudo.

Yn fras, o ganlyniad i'r diffyg tystiolaeth ac ymchwil sydd ar gael, nid oes modd i'r adroddiad argymhell ymyraethau penodol a fyddai'n cyflawni amcanion rhaglen Arfor. Mae angen datblygu'r ddealltwriaeth o'r cyswllt rhwng prosesau economaidd a'r iaith, a'r mathau o ymyraethau economaidd sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr iaith a/neu patrymau ymfudo. Wedi datblygu gwell dealltwriaeth o'r 'broblem', gellir mynd ati i argymhell ymyraethau sy'n fwy tebygol o gael yr effaith sydd ei hangen.

Argymhellion

Bwriad y ddogfen hon felly, yw ceisio cyflwyno argymhellion fydd yn galluogi Arfor i gyrraedd pwynt lle bydd modd adnabod a hyrwyddo ymyraethau llawr gwlad sy'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae'r ddogfen yn argymhell tri gweithgaredd sy'n gyd- gysylltiedig.

1. Yn gyntaf; mynd ati i geisio cynnal a pharhau gwaith cyfredol rhaglen Arfor o dreialu ac, yn allweddol bwysig, gwerthuso a dysgu o ymyraethau llawr gwlad.

2. Yn ail; cynigir y dylid sefydlu grŵp ymchwil (gydag aelodaeth sydd yn mynd y tu hwnt i arbenigwyr ieithyddol a'r rheini sydd wedi bod ynghlwm â'r pwnc hwn ers rhai blynyddoedd), i ddatblygu a hyrwyddo dealltwriaeth o'r cyswllt rhwng yr economi a'r iaith. Rôl y grŵp hwn fydd gwerthuso'r treialu llawr gwlad, adolygu tystiolaeth ac ymchwil ehangach, ac argymhell ymyraethau effeithiol i'w prif-ffrydio a'u hyrwyddo yn y pedair sir.
3. Yn drydydd, a gyda chyfnod hirdymor mewn golwg, argymhellir cysylltu'r gwaith hwn â chorff ffurfiol sy'n gallu prif-ffrydio a hyrwyddo ymyraethau llwyddiannus o fewn awdurdodau lleol ardal Arfor a thu hwnt iddynt. Yn fras, bod y pedair sir yn cytuno i barhau i gydweithio yn ffurfiol, ac yn cytuno i geisio prif-ffrydio a hyrwyddo ymyraethau llwyddiannus.
4. Yn ychwanegol, gydag effaith Covid-19 yn debygol o rwystro prosiectau a gwariant sydd wedi ei gynllunio ar gyfer rhaglen gyfredol Arfor, argymhellir y dylid ystyried defnyddio'r gwariant i ddatblygu dealltwriaeth o resymau pobl ifanc dros adael neu ddychwelyd i ardal Arfor, neu i werthuso prosiectau perthnasol i amcanion y rhaglen ond sydd yn cael eu gweithredu y tu allan i raglen Arfor, megis effaith ieithyddol datblygiad Yr Egin, neu archwilio'r twf anecdotaidd diweddar yn nifer y bobl sy'n dychwelyd i ardal Caernarfon.

1 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Yn ystod yr 20fed ganrif gwelwyd gostyngiad cyson yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Bu ail hanner y ganrif yn gyfnod o ymdrech gan unigolion, cymdeithas sifil, ac yn fwy diweddar llywodraethau'r DU a Chymru i geisio atal y gostyngiad a sicrhau cynaliadwyedd yr iaith. Bu nifer o lwyddiannau, cyflwynwyd deddfwriaeth a sicrhawyd statws swyddogol i'r Gymraeg, ond daeth addysg i'r amlwg fel un o'r prif arfau i adfywio'r iaith.

Serch yr ymdrechion hyn, mae bygythiad i gynaliadwyedd y Gymraeg yn parhau, ac mae tipyn o sylw wedi cael ei roi gan academyddion, mudiadau cymdeithas sifil a llywodraethau i'r ardaloedd daearyddol sy'n gartref i ganrannau uchel o siaradwyr; y 'cadarnleoedd'. Yn aml, cyfeirir at siroedd Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr fel y cadarnleoedd hyn, er y gellir nodi nifer o siroedd neu ardaloedd o fewn siroedd eraill sydd yn rhannu nodweddion tebyg. Mae consensws cyffredinol bod y cadarnleoedd hyn yn rhannu nodweddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol tebyg, gan gynnwys:

1. Canran uchel o siaradwyr Cymraeg
2. Mewnfudo pobl hŷn, pobl ifanc sy'n allfudo
3. Gwledig gan ddibynnu ar amaethyddiaeth, bwyd a thwristiaeth
4. Trefi marchnad a threfi Prifysgol
5. Canran uchel o swyddi yn y sector cyhoeddus
6. Cyflogau isaf ym Mhrydain, ac ymhlith y cyflogau isaf yn Ewrop

Yn ogystal â'r uchod, mae consensws bod y siroedd yn rhannu'r un her, a bod yna broblem gyffredin yn eu hwynebu. **Mae dyfodol yr iaith, ei defnydd a'i chynaliadwyedd yn y cadarnleoedd hyn o dan fygythiad.** Mae consensws o fewn siroedd hyn, ac yn ehangach hefyd, bod hyfywdra a chynaliadwyedd yr iaith yn y cadarnleoedd hyn yn hanfodol i statws a dyfodol yr iaith Gymraeg yn gyffredinol.

Fel y trafodir isod, mae consensws pellach bod prosesau economaidd wedi bod yn ffactor a rheswm dros dranc yr iaith, a bod angen datblygiad ac ymyraethau economaidd sy'n galluogi'r iaith i ffynnu. Mae cefnogaeth ac awydd ar draws y pedwar awdurdod lleol i weithio mewn partneriaeth ac i sefydlu fframwaith datblygu economaidd a chynllunio ieithyddol mewn modd cyd-gysylltiedig, er mwyn ymateb i'r broblem.

Serch hyn, mae strategaeth Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb' (2017) yn amlinellu strwythurau rhanbarthol ar gyfer datblygu'r economi yng Nghymru yn y dyfodol, ac nid yw hyn, yn nhyb llawer o bobl, yn adnabod y cadarnleoedd fel rhanbarth ar gyfer ymdriniaeth economaidd benodol neu amgen. Mae hyn yn golygu bod y pedair sir wledig, lle mae'r Gymraeg yn gryf ac yn amlwg wedi eu cynnwys o fewn rhanbarthau lle mae'r Saesneg yn fwyaf amlwg, a rhoddir pwyslais ar ganolfannau trefol. Mae pryder felly, bod cynllunio economaidd-ieithyddol yn debygol o gael ei wthio i'r cyrion, neu ei israddio mewn cyd-destun rhanbarthol o'r fath. Mae galw felly wedi bod am ymdrechion i ddatblygu cynllunio economaidd-ieithyddol penodol ar gyfer y pedwar awdurdod lleol hyn – ardal Arfor.

Arfor

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, clustnodwyd cyllideb o £2,000,000 ar gyfer y cyfnod 2019-2021. Mae'r cyllid i'w ddefnyddio gan y pedwar awdurdod lleol yng ngorllewin Cymru (a nodir uchod) i weithio mewn partneriaeth i dreialu a gwerthuso ymyraethau economaidd yn yr ardal.

Mae rhan o'r cyllid wedi ei neilltuo hefyd er mwyn datblygu cynllun strategol fyddai'n ceisio sicrhau twf economaidd a ffyniant economaidd yng ngorllewin Cymru gan gyfrannu at gynaliadwyedd y Gymraeg. Dyna, yn ei hanfod, yw'r ddogfen hon. Ond, fel y manylir isod, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn bosibl argymhell ystod o weithgareddau penodol a fyddai'n sicr o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae'r ddogfen hon felly yn adroddiad interim, yn adrodd ar ganlyniadau'r gwaith ymchwil a pharatoi ar gyfer y cynllun strategol, ac yn cynnig argymhellion am weithredu pellach gan y pedwar awdurdod lleol er mwyn cyrraedd pwynt lle mae'n bosibl adnabod ymyraethau economaidd sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Wrth ystyried cynnwys ac argymhellion yr adroddiad, pwysleisir y dylid cydnabod mai gwariant economaidd yw hwn, nid gwariant polisi iaith. Mae hyn yn wahaniaeth pwysig. Fel y manylir isod gan adlewyrchu canfyddiadau tîm Revitalise ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ymchwil ehangach; yn aml wrth drafod a datblygu ymyraethau sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng yr economi a'r iaith, mae'r pwyslais yn aml ar y defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau. Fodd bynnag, mae'r cyllid hwn wedi ei glustnodi ar gyfer mathau o ddatblygu economaidd sydd eu hangen i greu gwell cyfleoedd gwaith, a rhagor ohonynt, a fydd, yn eu tro yn cyfrannu at sicrhau ffyniant y Gymraeg. Gwariant economaidd yw gwariant Arfor, sydd yn ceisio sicrhau lles ieithyddol yn ogystal ag economaidd.

Yn olaf, casglwyd y data ar gyfer yr adroddiad hwn cyn i argyfwng Covid-19 a'i heffeithiau daro Cymru. Mae'n debygol felly y bydd y cyd-destun, y proffil economaidd a barn y rhanddeiliaid wedi newid erbyn i'r ffynhonnellau data a ddefnyddir yma gael eu diweddarau.

1.2 Y ddogfen hon

Yn haf 2019, comisiynwyd Wavehill i gwblhau dwy dasg:

1. Datblygu Cynllun Strategol i lywio'r gwaith o ddatblygu cynllunio economaidd ac ieithyddol yn rhanbarth 'Arfor', Gorllewin Cymru (sef Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr) y tu hwnt i gyfnod y cynllun presennol.
2. Y nod hefyd yw asesu a darparu gwerthusiad effaith o'r ymyraethau a weithredwyd ar draws y rhanbarth yn y cyfnod cychwynnol/cyfredol, trwy ddadansoddi'r effaith economaidd ac ieithyddol, a'r newidiadau tymor byr a hirdymor. Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod bwriad yr asesiad hwn, ond yn canolbwyntio ar y cam cyntaf.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cam cyntaf, a'r ymgais i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer ymyraeth economaidd yn yr ardal. Adroddiad interim yw'r ddogfen hon, sy'n casglu nad yw'n bosibl llunio Cynllun Strategol heb waith pellach i dreialu a gwerthuso ymyraethau.

Perthynas y ddogfen â'r Cynllun Strategol

Gan fod yr adroddiad yn casglu nad oes sail dystiolaeth i gefnogi Cynllun Strategol manwl neu i argymhell ymyraethau penodol, mae'r ddogfen hon yn cymryd lle cynllun o'r fath. Serch hyn, bydd adroddiad gwerthuso yn cyfeirio at y ddogfen hon ac yn ceisio adnabod gwersi a ddysgwyd o raglen gyfredol Arfor.

Casgliad yr adroddiad hwn yw bod angen datblygu'r ddealltwriaeth o'r cyswllt rhwng prosesau economaidd a'r iaith, a'r mathau o ymyraethau economaidd sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr iaith. Ar ôl datblygu gwell dealltwriaeth o'r 'broblem', gellir mynd ati i argymhell ymyraethau sy'n fwy tebygol o gael yr effaith sydd ei hangen. Bwriad y ddogfen hon felly yw ceisio cyflwyno argymhellion a fydd yn galluogi Arfor i ddechrau ar broses o dreialu, dysgu, adnabod a hyrwyddo ymyraethau llawr gwlad sy'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Yn fras, y nod yw ceisio sefydlu'r camau fydd yn galluogi Cynllun Strategol i gael ei ddatblygu.

1.3 Amseru / amserlen Arfor

Er mai datblygu Cynllun Strategol yw nod y gwaith hwn, comisiynwyd y gwaith ar ôl i Fwrdd Llywio Arfor gytuno ar wariant y £2m. Mae'r ddogfen hon, a'r argymhellion cychwynnol sydd ynddi yn cydnabod y gwariant hwn ac yn ymdrechu i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer yr ardal a'i hawdurdodau lleol. Fel rhan o hyn, mae'r ddogfen yn tybio ac yn cymryd fel sail iddi, bod **ymrwymiad a bwriad gan y pedwar awdurdod i barhau i gydweithio yn enw Arfor yn y dyfodol**, tuag at yr un nod. Mae'r argymhellion ar ddiwedd y ddogfen hon felly'n ymwneud â'r cyfnod wedi i'r gwariant presennol ddod i ben, ond maent yn ystyried a chynnwys yr ymyraethau sydd wedi eu hariannu eisoes.

1.4 Methodoleg

Er mwyn datblygu'r Cynllun Strategol, aethpwyd ati i gasglu ystod o dystiolaeth oedd yn bodoli, ac i gynnal gwaith ymchwil cynradd yn ymwneud â'r maes. Diben y camau hyn oedd tynnu ar arbenigedd ac ymchwil presennol fel sail i'r cynllun strategol. Roedd yr ymchwil yn cynnwys y tasgau allweddol canlynol:

- Trafodaethau gyda Swyddogion a Bwrdd Arfor
- Adolygiad o'r llenyddiaeth academaidd a llwyd
- Adolygiad o'r cyd-destun polisi
- Asesiad o'r data meintiol economaidd ac ieithyddol sydd ar gael
- Dadansoddiad econometreg o'r cyswllt rhwng yr economi a'r Gymraeg
- 43 cyfweiliad gyda rhanddeiliaid
- Holiadur ar-lein gydag ystod o gyrff ac unigolion
- Trafodaethau gydag academyddion, tîm Revitalize ac arbenigwyr polisi iaith
- Gweithdai gyda rhanddeiliaid, cynghorwyr a swyddogion Arfor.

1.5 Natur y Broblem a Rhesymeg Arfor

Mae dogfennaeth rhaglen Arfor yn datgelu rhesymeg yr ymyrraeth yn glir fel sail i geisio mynd i'r afael â thranc yr iaith yn yr ardal:

'Bwriad y Rhaglen yw cefnogi creu mwy a gwell swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg a thrwy hynny cefnogi parhad a thwf y Gymraeg'

Mae'r rhesymeg hon yn seiliedig ar ddealltwriaeth o 'broblem' sydd yn ddigon cyfarwydd i'r rheini sy'n ymddiddori mewn polisi iaith a hanes yr iaith Gymraeg yn ail hanner yr 20fed ganrif. **Mae dyfodol yr iaith, ei defnydd a'i chynaliadwyedd yn y cadarnleoedd traddodiadol o dan fygythiad.** Digon cyfarwydd yw'r esboniad am hyn hefyd. Y ddadl yw bod pobl ifanc yn gadael cadarnleoedd y Gymraeg er mwyn canfod gwell swyddi a chyflogaeth yn ninasoedd y De, Lloegr a thu hwnt.

Yn wir, fel y cyflwynir isod, mae tystiolaeth ystadegol i gefnogi'r dadansoddiad hwn. Mae cymunedau cadarnleoedd y Gymraeg yn dioddef o ganlyniad i effeithiau economaidd ac ieithyddol allfudo, tra'n gweld effaith mewnfudo pobl ddi-Gymraeg ar yr un pryd. Yn fras, mae'r unigolion ifanc, medrus a chymwys, a bywiog yn economaidd yn gadael yr ardal gan effeithio'n andwyol ar yr economi. Canlyniad pellach y prosesau economaidd a demograffig hyn yw gostyngiad cyson yn niferoedd neu/a chanran siaradwyr, a dirywiad hyfywdra, bywiogrwydd a chynaliadwyedd y Gymraeg yn yr ardaloedd hynny sy'n draddodiadol gadarn. Rhaid nodi nad yw'r patrymau ymfudo hyn yn unigryw i ardal Arfor, yn wir maent yn adlewyrchu tueddiadau mewn ardaloedd gwledig ledled Prydain a'r byd. Mae'r effaith serch hynny, yn unigryw gan fod yr ymfudo yn arwain at ddirywiad yn hyfywdra'r Gymraeg.

Wrth wraidd y 'broblem' felly mae ymfudo, a cholli unigolion ifanc, cymwys a Chymraeg eu iaith.

Mae Arfor yn cyflwyno ymateb sy'n cyd-fynd â'r dadansoddiad hwn o'r broblem. Y rhagdybiaeth sylfaenol sy'n gyrru rhesymeg Arfor yw y bydd twf economaidd, ac yn benodol, creu 'swyddi da' yn denu pobl ifanc ac yn eu cadw yn yr ardal, gan helpu i gadw niferoedd siaradwyr, defnydd a lefelau bywiogrwydd yr iaith yn uwch. Yn ei dro, bydd hyn yn diogelu statws y Gymraeg o fewn y boblogaeth ehangach. Mae'r egwyddor hon o greu swyddi a chyfoeth yn haerriad hirsefydlog sy'n reddfol gredadwy, ac yn ymdeimlad a atseiniwyd yn gyson yn ystod y cyfweiliadau a'r gwaith ymchwil ar gyfer y papur hwn.

Ond drwy waith ymchwil pellach, daeth yn amlwg bod diffygion yn y corff o dystiolaeth sydd yn cefnogi'r dadansoddiad hwn o'r broblem. Roedd yn amlwg hefyd bod gan rhanddeiliaid y prosiect farn amrywiol ynglŷn â natur y broblem, yn ogystal â diffiniadau gwahanol o gysyniadau craidd o fewn y maes.

2 Cymraeg a'r economi

2.1 Crynodeb o'r ymchwil desg

Mae'r bennod hon yn crybwyll prif negeseuon y llenyddiaeth academiaidd ac yn gosod y cyd-destun polisi ar gyfer rhaglen Arfor. Nid yw'r bennod hon yn ymgais i gynnig trosolwg cyflawn o'r llenyddiaeth ar yr economi a'r Gymraeg, ond yn hytrach mae'n amlinellu'r prif themâu sy'n berthnasol i'r ymdrech i ddatblygu cynllun strategol.

2.1.1 Cyd-destun polisi

Mae rôl y Gymraeg ym maes datblygu economaidd wedi bod yn destun trafod ers blyneddau, gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol yn paratoi adroddiad ar y mater i'r Llywodraeth yn 2014. Pwysleisiodd ei adroddiad, yn debyg iawn i'r adroddiad hwn, yr angen am dystiolaeth ac ymchwil pellach ynghylch y cysylltiad rhwng yr economi a'r iaith.

Mae strategaeth iaith Gymraeg y Llywodraeth, 'Cymraeg 2050',³ yn dilyn strategaethau blaenorol fel 'Iaith fyw - Strategaeth y Gymraeg 2012 – 2017'⁴ yn ei hasesiad o gyd-destun economaidd y Gymraeg mewn ardaloedd gwledig. Er bod cadarnleoedd y Gymraeg yn cael eu cydnabod, cydnabyddir hefyd fod yr ardaloedd hyn yn ddibynnol ar swyddi yn y sector cyhoeddus, neu swyddi sy'n gysylltiedig â diwydiannau 'gwledig' fel amaethyddiaeth, twristiaeth neu'r diwydiannau bwyd a diod. Mae'r strategaeth bresennol (a blaenorol) hefyd yn cydnabod y ffactorau economaidd sy'n effeithio'n negyddol ar yr iaith a'i chynaliadwyedd, gan gynnwys y mater o bobl ifanc yn gadael yr ardal. Yn bwysig, fodd bynnag, mae'r strategaeth, sy'n adleisio 'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol' gan y Llywodraeth,⁵ yn cydnabod yr angen am newid economaidd a chymdeithasol a'r angen i ddatblygu'r economi mewn modd a all gynnal yr iaith.

'Er bod y rhesymau dros feddylfryd o'r fath yn ddealladwy, mae'n ddyletswydd ar y Llywodraeth i hyrwyddo twf economaidd a lledaenu ffyniant ledled Cymru. Ni allwn ddisgwyl i gymunedau Cymraeg aros yn sefydlog tra bod natur cymdeithas yn newid. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd datblygu economi ffyniannus a chynaliadwy mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys yn yr ardaloedd a ddisgrifiwyd yn flaenorol.'⁶

³ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-welsh-language-strategy.pdf>

⁴ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/strategaeth-y-gymraeg-2012-i-2017-iaith-fyw-iaith-byw.pdf>

⁵ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2017-10/prosperity-for-all-the-national-strategy.pdf>

⁶ Cymraeg 2050 t.62

Fodd bynnag, mae'r strategaethau cenedlaethol hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar amlygu neu wneud y mwyaf o werth neu effaith yr iaith o fewn neu ar fusnesau, yn hytrach na chydabod yr economi a phrosesau economaidd fel dulliau o ddylanwadu ar yr iaith a'i defnydd. Nid yw hyn yn syndod o ystyried y diffyg data sy'n cynnig tystiolaeth neu sy'n nodi prosesau neu ymyriadau economaidd penodol sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr iaith (a drafodir isod). Yn wir, efallai mai ariannu rhaglen Arfor yw'r ymdrech gyntaf a mwyaf arwyddocaol gan Lywodraeth Cymru i ymwneud yn benodol ac yn uniongyrchol â datblygu ymyriadau economaidd gyda'r nod o greu effaith gadarnhaol ar yr iaith.

2.1.2 Ymchwil academaidd ar y Gymraeg a'r Economi

Mae'r is-bennod hon yn cynnig trosolwg o astudiaethau academaidd ym maes y Gymraeg a'r economi. Prif wendid y maes, fel y nodwyd gan ymchwilwyr tîm Revitalise,⁷ yw'r pwyslais yn gyntaf yn yr ymchwil yn y maes ar y berthynas rhwng yr iaith a'r economi. Mae astudiaethau yn tueddu i drafod y defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau, a budd yr iaith i unigolion yn y farchnad lafur neu i fusnesau wrth fasnachu – yr iaith yn yr economi felly (iaith>economy). Prin iawn yw'r drafodaeth ar brosesau economaidd a'u heffaith andwyol neu gadarnhaol ar yr iaith – yr economi'n effeithio ar yr iaith (economy>iaith). Fel y nodwyd gan dîm ymchwil Revitalise, gan dynnu ar dystiolaeth a thrafodaethau seminarau ymchwil;

'Er bod cydnabyddiaeth gref a helaeth o bwysigrwydd economi hyfyw i adfywio iaith, gwelwyd prinder gwaith ymchwil cynhwysfawr a manwl i geisio deall sut a phryd y bydd prosesau neu newidynnau economaidd yn effeithio un ai'n gadarnhaol neu mewn modd negyddol ar lefelau bywiogrwydd ieithyddol.⁸

'Y bwlch ymchwil mwyaf arwyddocaol a nodwyd, fodd bynnag, oedd diffyg dealltwriaeth fanwl o'r modd y gall newidiadau economaidd gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar lefelau bywiogrwydd ieithyddol.⁹

Mae ymdrechion i drafod a datblygu'r drafodaeth yn y maes, fel yr hyn a welir yn strategaeth iaith Llywodraeth Cymru, hefyd yn dueddol o drin y ddwy berthynas unigryw hyn (iaith>economy ac economy>iaith) fel un mater. Felly, mae tuedd i lunwyr polisi droi at ymyraethau sy'n hwyluso neu'n hyrwyddo defnydd o'r iaith o fewn yr economi (polisiâu iaith>economy) yn hytrach na pholisiâu economaidd sy'n cefnogi'r iaith (polisiâu economaidd>iaith).

Mae'r casgliadau hyn yn atseinio adolygiad tystiolaeth a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru yn ddiweddar.¹⁰

⁷ <http://revitalise.aber.ac.uk/en/>

⁸ Royles, E., (2019). *Adroddiad Briffio Gweithdy 3: Adfywio iaith a thrawsnewid economaidd*, <http://revitalise.aber.ac.uk/en/media/non-au/revitalise/Adfywio---Adroddiad-Gweithdy-3---TERFYNOL.pdf> [Ar-lein] t.9-10

⁹ ibid t.2

¹⁰ Thomas, H. Duggan, B. Glover A. a Glyn, E, (2020) *Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Yn fras, mae prinder difrifol o waith ymchwil sy'n ceisio esbonio a deall effaith newidynnau a phatrymau neu brosesau economaidd ar lefelau bywiogrwydd neu gynaliadwyedd ieithyddol. Gwan felly yw'r sail ar gyfer cynnig ystod o ymyraethau a pholisïau penodol mewn unrhyw Gynllun Strategol, gan fod diffyg sail dystiolaethol ar gael.

Serch hyn, mae rhai astudiaethau dros yr ugain mlynedd diwethaf wedi cynnig ychydig o ddata a thystiolaeth i gynorthwyo ymdrechion i ddeall y maes, yr ardal, neu yn ymwneud â datblygu cynllunio economaidd sy'n cefnogi cynaliadwyedd ieithyddol.

Effaith prosesau economaidd ar yr iaith

Yn dilyn adolygiad o'r llenyddiaeth ar y berthynas rhwng yr economi a'r iaith, daeth adroddiad Llywodraeth Cymru i'r casgliad bod y pwyslais yn amlach na pheidio ar brosesau iaith>economy, yn hytrach nag economi>iaith.

'Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gafodd ei chynnwys... yn canolbwyntio ar ddeall neu asesu effaith ffactorau ieithyddol ar amrywiol newidynnau economaidd, yn hytrach nag effaith newidynnau economaidd ar iaith.'¹¹

O'r rheini sydd wedi trafod y berthynas economi>iaith, bu'r pwyslais ar y farchnad lafur yn bennaf, neu'r berthynas rhwng yr iaith ag allbynnau economaidd.

'Canlyniadau neu newidynnau'r farchnad lafur yw'r rhai a archwilir amlaf yn y llenyddiaeth, gyda 23 o'r 57 o'r cyfeiriadau'n archwilio'r berthynas rhwng iaith ac enillion, cyflogaeth, gweithgarwch neu anweithgarwch economaidd, anghenion sgiliau neu ganlyniadau galwedigaethol.'¹²

Yn fras, mae prinder ymchwil ar effaith prosesau economaidd ar iaith yn wendid yn y maes, sy'n cyfyngu'r gallu i argymhell ymyraethau economaidd penodol. Mae rhywfaint o waith ymchwil cyhoeddedig yn cynnig pwyntiau allweddol i'w hystyried. Nododd adroddiadau tîm Revitalise er enghraifft, bod y defnydd o iaith gan fusnes neu gwmni yn gallu cael effaith gadarnhaol ar statws yr iaith a'r defnydd ohoni ar lefel ficro. Cyfeiriwyd at gwmni chwisgi yn yr Alban, a'r modd y mae '...eu defnydd o'r iaith, a'u dulliau normaleiddio yn y gweithle, y potensial i gyfrannu mewn modd cadarnhaol i'r broses normaleiddio ehangach ym maes addysg ac yn gymdeithasol.'¹³

¹¹ Thomas, Hefin; Duggan, Brett; Glover, Alison a Glyn, Eluned (2020) *Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. T.84

¹² ibid t.33

¹³ Royles, E., (2019) t.10

Nodwyd hefyd bod ymchwilwyr yn yr Alban o'r farn bod swyddi sy'n gofyn am sgiliau a defnydd ieithyddol yn cael eu lleoli y tu allan i'r ardaloedd lle ceir y dwysedd uchaf o siaradwyr. Cyfeirir at swyddi'r diwydiant creadigol yn yr Alban, lle mae galw am sgiliau a defnydd o'r Gaeleg, wedi eu lleoli yn Glasgow.¹⁴ Mae'r cyfle i fanteisio a datblygu'r farchnad lafur ieithyddol yn y cadarnleoedd yn cael ei golli o ganlyniad. Yng nghyd-destun Arfor a Chymru, bydd gwerthusiad o effaith ieithyddol datblygiad megis Yr Egin yng Nghaerfyrddin yn cynnig cyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth hon, ac yn datblygu'r ddealltwriaeth o werth datblygu marchnad lafur ieithyddol yn ardal Arfor.

Y tu hwnt i'r hyn y mae tîm Revitalise ac adolygiad o'r llenyddiaeth gan Lywodraeth Cymru wedi eu canfod, mae'n rhaid tyrchu'n ddyfnach i gasglu ymchwil ar effeithiau prosesau economaidd ar yr iaith. Gwelwyd twf yn sector twristiaeth a hamdden Cymru yn ystod degawdau olaf yr 20fed ganrif. Bellach gwelir ymrwymadau a sylw penodol i'r sector o fewn strategaethau economaidd cenedlaethol a lleol. Yn ystod cyfweiliadau ar gyfer y papur hwn, adlewyrchwyd yr argraff bod y sector yn un allweddol i'r Gymru wledig, yn arbennig o safbwynt cyflogaeth.

Yn wir, ugain mlynedd yn ôl, c daeth Phillips i'r casgliad bod manteision economaidd clir i'r diwydiant twristiaeth o ran cyflogaeth a gwariant, gan nodi bod oddeutu £1.3biliwn yn cael ei wario yng Nghymru bob blwyddyn erbyn diwedd yr 1990au, a'r sector yn cyflogi 100,000 o bobl naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.¹⁵ Mae'r darlun yn debyg hyd heddiw, fel yr amlinellir yn y llinell sylfaen yn hwyrach yn y ddogfen, mae'r sector yn cyflogi canran uwch na'r cyfartaledd Cymreig.

Serch hyn, mae Phillips yn codi cwestiwn allweddol ynglŷn â chost ac effaith hirdymor ffyniant sector o'r fath yn yr ardal. Cyflwyna dystiolaeth o'r cyswllt rhwng twristiaeth a mewnfudo, gan gyfeirio at astudiaethau a ganfu fod hanner y bobl a oedd wedi symud i Llandudno wedi ymweld â'r ardal fel twristiaid cyn hynny,¹⁶ tra bod 59% o berchnogion tai haf/gwyliau yn bwriadu ymddeol i'r ardal.¹⁷

'Y bygythiad pennaf... yw'r modd y mae twristiaeth yn annog ac yn hyrwyddo mewnfudiad parhaol o bobl anghyfiaith i gadarnleoedd yr iaith frodorol.'¹⁸

Mae un o sectorau economaidd allweddol ardal Arfor yn ffactor sy'n denu ymfudwyr sy'n annhebygol o fedru'r Gymraeg mewn niferoedd sylweddol.

¹⁴ ibid t.11

¹⁵ Phillips, D. (2000). 'We'll keep a welcome? The effects of tourism on the Welsh language', yn Jenkins, G.H. a Williams, M.A. (gol) Let's Do Our Best for the Ancient Tongue - The Welsh Language in the Twentieth Century. Ailargraffiad, Wiltshire: CPI Anthony Rowe, 2015, tud. 527-550.

¹⁶ Law, C.M. a Warnes A.M. (1973). 'The movement of retired people to seaside resorts: A Study of Morecambe and Llandudno', The Town Planning Review, Cyf. 44, Rhif 4 (Hyd. 1973), tud. 373-390. Heb fod ar gael ar gyfer yr Adolygiad hwn.

¹⁷ Pyne, C.B. (1973). Second homes. Adran Cynllunio Sirol Caernarfon.

¹⁸ Phillips, D., a Thomas, C. Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yng Ngogledd-Orllewin Cymru, t. 77. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2001.

Mae Wavehill a Four Cymru wedi cyhoeddi canfyddiadau cychwynnol yn craffu ar y sector yng Ngwynedd hefyd. Canfu ymchwil ystadegol gyswllt rhwng twf cyflogaeth yn y sector a thwf yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg, gan gynnig bod y swyddi y mae'r sector yn eu creu yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.¹⁹ Serch hyn, mae effaith hirdymor y sector, fel yr awgrymwyd gan Phillips, yn rhoi cyd-destun pwysig i unrhyw fudd byrdymor.

'Ategu'r dystiolaeth amgylchiadol â ffeithiau caled a wna'r ymchwil hon, a chynnig prawf gwrthrychol a diamheuol fod sgil-ffeithiau'r diwydiant ymwelwyr yn peri bygythiad difrifol iawn i ddyfodol yr iaith. A'r sgil-ffaith mwyaf niweidiol o bell ffordd yw'r modd y mae twristiaeth yn annog mewnfudiad.'²⁰

Mudo

Dros ugain mlynedd yn ôl darganfu Blackaby a Drinkwater nodweddion perthnasol am gyflogaeth siaradwyr Cymraeg a oedd (yn ôl pob tebyg) wedi symud o'r cadarnleoedd i ogledd ddwyrain neu dde-ddwyrain Cymru.

Firstly, there do not appear to be vast differences in the occupational composition of Welsh- and non-Welsh-speakers in west Wales. The differences are encountered when the other two areas are considered [de-ddwyrain a gogledd-ddwyrain Cymru]. In these areas, Welsh-speakers were far more concentrated within the higher occupations. For example, over 45 per cent of Welsh-speaking males in south-east Wales appeared within the top three occupational classifications, but this was true for less than 27 per cent of non-Welsh-speakers... Similar patterns are observed if social class is considered... 45.4 per cent of Welsh-speakers in south-east Wales were in the professional, managerial and technical social classes, but this only applied to 24.9 per cent of non-Welsh-speakers.²¹

Gan ddatblygu gwaith Giggs a Pattie²² mae'r ddau yn mynd ymlaen i geisio esbonio'r gwahaniaethau hyn, gan ddadlau fod siaradwyr Cymraeg sy'n allfudo o'r gorllewin yn fwy tebygol o symud i'r ardaloedd yn y de a'r de orllewin (yn arbennig Caerdydd ac Abertawe). Mae siaradwyr Cymraeg yn gallu sicrhau cyflogaeth well mewn ardaloedd sy'n bennaf ddi-Gymraeg. Mae symud i Gaerdydd neu ardal debyg yn cynnig gwell cyfleoedd cyflogaeth (o'u cymharu â'r gorllewin), i'r unigolion hynny sy'n medru'r Gymraeg.

¹⁹ <https://www.arsyllfa.cymru/cy/twristiaeth-ar-iaith-yng-ngwynedd/>

²⁰ Phillips, D. 'Croeso i Gymru?' Yn:

<http://www.wales.ac.uk/cy/YGanolfanGeltaidd/ResearchProjects/CompletedProjects/SocialHistoryoftheWelshLanguage/CroesoGymru.aspx>

²¹ Blackaby, D.H. a Drinkwater, S. J. (1997). 'Welsh speakers and the Labour Market', *Contemporary Wales*, Cyf. 9 tud. 158-70 [Ar-lein]. t.167

²² Giggs, J., a Pattie, C. (1992). 'Croeso i Gymru, Welcome to Wales: But Welcome to Whose Wales?' *Area*, 24(3), 268-282. Cyrchwyd Ebrill 22, 2020, o www.jstor.org/stable/20003146

It seems likely that many well-qualified individuals from west Wales have moved to larger cities because of the lack of suitable employment opportunities in rural areas (Giggs and Pattie, 1992), and since Welsh-speakers tend to have a greater cultural attachment to their homeland, Welsh-speaking migrants from west Wales are more likely to choose cities such as Cardiff and Swansea over those outside the Principality... It is found that 58.5 per cent of Welsh-speaking migrants who moved a distance of 30 kilometers or more within Wales possessed a higher education qualification. This was over double the percentage from non-Welsh-speakers (28.2 per cent). Therefore, it seems likely that a large percentage of highly educated Welsh-speakers are moving within Wales in order to further their careers... For whatever reason, Welsh-speakers appear to do better in the Welsh labour market than their non-Welsh-speaking counterparts. It is found that Welsh-speakers experienced sizeably lower unemployment rates than non-Welsh-speakers in 1991... The occupational advantage of Welsh-speakers was most noticeable in areas where only a small minority of the population were able to speak Welsh.²³

Gellir cynnig bod yr awduron efallai yn rhagdybio mai oherwydd y cyswllt diwylliannol y mae siaradwyr Cymraeg yn dewis dinasoedd yng Nghymru. Gellir cynnig hefyd bod cysylltiadau teuluol, prifysgol neu gylchoedd ffrindiau yn rhesymau posibl hefyd. Ond mae'r data'n cefnogi'r ddatl eu bod yn symud, ac ar y cyfan yn sicrhau cyflogaeth well (sy'n talu'n well) beth bynnag yw'r rheswm. Rhaid nodi serch hynny, bod y data a'r ddatl yn dyddio o 1997, heb ddiweddariad neu ymateb ers hynny.

Mae Jones yn cynnig sail gadarn i'r naratif a'r rhesymeg draddodiadol ynghylch patrymau ymfudo ardaloedd fel Arfor,²⁴ er iddo gydnabod gwendid y maes a'r prinder ymchwil i'r berthynas rhwng allfudo a'r Gymraeg. Honna fod y rhan fwyaf o unigolion fu'n gadael cadarnleoedd gorllewin Cymru yn gwneud hynny am resymau yn ymwneud â chyflogaeth.

'It needs to be borne in the mind that economic factors... may be even more important for individuals' decisions concerning migration than their own personal characteristics.'²⁵

Mae ymchwil Jones yn ogystal â swmp naratif cyffredinol allfudo o'r gorllewin – a ailadroddwyd yn y cyfweiliadau ar gyfer y gwaith hwn – yn pwysleisio rhesymau economaidd a chyflogaeth fel ffactorau sy'n cymell unigolion i symud. Yn fras, mae pobl ifanc yn gadael ardal Arfor a'r gorllewin i geisio dod o hyd i swyddi a chyflogau gwell yng Nghaerdydd neu Abertawe. Serch hynny, prin iawn yw'r gwaith ymchwil sy'n archwilio naratifau a hanesion unigolion am symud, ac mae'n faes sy'n brin o ddata o unrhyw fath, bron yn wag o ddata ansoddol. Gall hyn fod yn broblematig o ystyried natur bersonol a goddrychol mudo ar lefel yr unigolyn.

²³ Blackaby & Drinkwater (1997). tt.167-168

²⁴ Jones, H. (2010), 'Welsh Speakers: Age Profile and Outmigration', yn Morris, D. (gol.), *Welsh in the Twenty First Century*, (Cardiff: University of Wales Press).

²⁵ Jones, H. (2010), 'Welsh Speakers: Age Profile and Outmigration', yn Morris, D. (gol.), *Welsh in the Twenty First Century*, (Cardiff: University of Wales Press). t.123

Mae gwaith diweddar Cunnington-Wynn yn un eithriad i hyn. Yn dilyn cyfres o gyfweiliadau gydag unigolion mewn trefi yng ngorllewin a gogledd Cymru, casgla fod rhesymau a chymelliad pobl dros ymfudo yn amlhaenog ac yn gymhleth. Er bod rhesymau economaidd a chyflogaeth dros ymfudo yn amlwg, roedd y drafodaeth ar y rhain yn tueddu i fod yn arwynebol ond roedd y trafodaethau ynghylch hunaniaeth a'r ymdeimlad o berthyn yn ystyriaethau dwys i'r bobl ifanc.

Darganfu'r ymchwil fod allfudo ymysg pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg yn ddibynnol ar nifer o ffactorau cymhleth ac amlhaenog, ac nid yw'n atgyfnerthu gwaith Jones (2010) sy'n datgan bod pobl ifanc yn symud o'r cymunedau traddodiadol 'Cymraeg' am resymau economaidd yn unig. Yn wir, darganfu i'r gwrthwyneb, sef bod dewisiadau'r bobl ifanc hyn yn ddibynnol ar eu hymdeimlad o berthyn a'u patrymau integreiddio i'r cymunedau dan sylw. Yma, ceir trafodaeth ar bwysigrwydd ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg, diwylliant a chenedligrwydd mewn perthynas â'u hymdeimlad o berthyn a'u patrymau integreiddio.²⁶

O ystyried tystiolaeth o fannau eraill ym Mhrydain, gwelwn gasgliadau tebyg i Cunnington-Wynn. Mewn cyhoeddiad yn 2020, ceisiodd y Social Mobility Commission a'r Institute for Employment Studies ddeall ac esbonio dyheadau pobl dros adael ardaloedd difreintiedig a gwledig.²⁷ Cyflwyno'r adroddiad dystiolaeth sy'n dangos fod allfudwyr yn llawer mwy tebygol o symud yn eu hugeiniau cynnar a phan mae ganddynt gymhwyster lefel gradd neu uwch. Canfu hefyd fod menywod yn fwy tebygol o symud na dynion – canfyddiadau sy'n adlewyrchu patrymau ymfudo ardal Arfor hefyd. Mae rhesymau economaidd a chyflogaeth yn bwysig i'r allfudwyr hyn, ond nid y rhain yw'r unig resymau dros symud. Mae'r buddion y mae allfudwyr yn eu crybwyll yn ymwneud ag ystod o ffactorau, megis gwell gofal iechyd, gwell addysg, trafndiaeth gyhoeddus sy'n well ac yn fforddiadwy yn ogystal â gweithgareddau cymdeithasol sy'n dueddol o fod yn fwy cyffredin a deniadol mewn ardaloedd dinesig. Dyma ffactorau sy'n ymwneud â safon byw, nid ffactorau economaidd. Yn wir, mae allfudwyr yn cydnabod bod costau byw yn uwch ar ôl symud i ddinasoedd, ac yn un o ganlyniadau negyddol allfudo. Ond mae'n bris sy'n werth ei dalu yn nhyb yr allfudwyr hyn, o ystyried y buddion ehangach.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnig nad yw pobl yn aros yn eu hardaloedd am resymau economaidd. Mae hyfywdra'r cysylltiadau cymdeithasol a rhesymau diwylliannol, personol a theuluol yn ffactorau dylanwadol. Mae hyn yn bwysig o ystyried mai prif ymateb polisi i allfudo yn ardaloedd gwledig Cymru, yw canolbwyntio ar ffactorau economaidd a chyflogaeth – nid y ffactorau sy'n peri i bobl ddewis aros.

Mae rhai astudiaethau wedi craffu ar effaith ieithyddol ac economaidd mewnfudo hefyd. Mae gwaith Dylan Phillips yn allweddol i'n dealltwriaeth yn y cyd-destun hwn hefyd, gan iddo bwysleisio effaith ieithyddol mewnfudo.

²⁶ Cunnington Wynn, L., "'Beth yw'r ots gennyf i am Gymru?": Astudiaeth o allfudo a dyheadau pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg', *Gwerddon*, 28, Mawrth 2019, 43–63, t.60

²⁷ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/902943/Moving_out_to_move_on_report.pdf

'O ran effaith y mewnfudiad hwn ar y Gymraeg, dangosodd yr ymchwil yn eglur fod defnydd y trigolion lleol o'r iaith yn cael ei gyfyngu'n arw po fwyaf o bobl ddi-Gymraeg sy'n byw yn y gymuned. Mae siaradwyr Cymraeg y tair cymuned a astudiwyd yn gwneud defnydd helaeth o'u mamiaith yn ystod achlysuron lleol megis eisteddfod, noson lawen neu gymanfa, ac yn perthyn i gymdeithasau megis Merched y Wawr, yr Urdd, a'r Ffermwyr Ifainc. Ond po fwyaf o fewnfudwyr sy'n trigo o fewn y gymuned, tebycaf oll yw'r Cymry Cymraeg i orfod troi at y Saesneg.²⁸

Er bod peth tystiolaeth i gefnogi'r naratif cyffredinol ynghylch allfudo o'r gorllewin, mae tystiolaeth hefyd yn cynnig bod rhesymau unigolion dros adael ardaloedd fel Arfor yn amlhaenog ac yn gymhleth. Mae consensws hefyd ymysg yr ychydig o academyddion ac ymchwilwyr sydd wedi astudio'r cyswllt rhwng allfudo a'r Gymraeg, bod prinder ymchwil a thrafodaeth. Ni allwn fod yn sicr o resymau unigolion dros adael ardal Arfor. Gall y rhesymau fod yn rhai economaidd, neu yn rhai sy'n ymwneud â hunaniaeth neu ddiwylliant. Yn y cyfamser, mae'r dystiolaeth ynghylch effaith mewnfudo yn cynnig ei bod yn niweidiol i'r iaith pan fo niferoedd sylweddol o bobl ddi-Gymraeg yn symud i gymunedau lle mae'r Gymraeg yn gryf.

Perthynas sectorau penodol â'r iaith

Mae Wavehill a Four Cymru wedi cyhoeddi canfyddiadau ymchwil cychwynol i faterion economi>iaith. Yn ogystal â'r canfyddiadau ynghylch y sector twristiaeth (gweler uchod), mae gwaith wedi ei gyflwyno ynghylch y sector amaeth²⁹ a'r sector cyhoeddus³⁰ yng Ngwynedd. Canfu'r ymchwil nad oes perthynas ystadegol rhwng y sector amaeth a'r iaith, ac ni ddylwn ddisgwyl i gynydd mewn cyflogaeth yn y sector effeithio ar yr iaith. Ond roedd y gwaith yn awyddus i bwysleisio rôl anuniongyrchol y sector, fel rhan allweddol o seilwaith cymunedol ardaloedd gwledig Cymreig sy'n cynnal yr iaith drwy'r cysylltiadau a'r patrymau cymdeithasol y mae'r sector yn eu hybu.

Canfu gwaith ymchwil ynghylch effaith cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar yr iaith fod y berthynas ystadegol yn un negyddol h.y. wrth i gyflogaeth yn y sector gynyddu, yn enwedig rhwng 1994-2003, mae niferoedd y siaradwyr Cymraeg wedi lleihau. Ers 2003, mae'r berthynas rhwng yr ystadegau cyflogaeth ac iaith wedi bod yn wan. Mae'r canfyddiadau yn annisgwyl ac yn reddfod anodd eu derbyn, ac mae esbonio'r berthynas negyddol yn anos heb ragor o ymchwil. Mae gwerth ystyried serch hynny, er bod niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn y sector cyhoeddus yng Ngwynedd yn gymharol uchel, mae'n bosibl bod y sector yn creu galw sy'n denu'r siaradwyr Cymraeg hyn o sectorau eraill yn yr economi h.y. dydy'r sector ddim yn annog mwy o siaradwyr Cymraeg i fyw a gweithio yn yr ardal – mae'n eu dadleoli neu'n eu 'sugno' o sectorau eraill o fewn y sir.

²⁸ Phillips, D. 'Croeso i Gymru'

²⁹ <https://www.arsyllfa.cymru/cy/perthynas-amaeth-ar-iaith/>

³⁰ <https://www.arsyllfa.cymru/cy/sector-gyhoeddus-ar-iaith/>

Prinder neu ddiffyg llenyddiaeth

Wrth adolygu'r llenyddiaeth daeth yn amlwg bod yna brinder gwaith ymchwil sydd yn gwerthuso effaith rhaglenni a gwariant cyhoeddus ym maes yr economi ar gynaliadwyedd ieithyddol. Un her amlwg i'r gwaith hwn yn sgil hyn yw'r diffygion methodolegol ynghylch mesur effaith gweithgaredd economaidd ar gynaliadwyedd ieithyddol. Mae tîm Revitalise wedi cychwyn trafodaeth ac wedi tynnu sylw at yr angen i gydnabod effaith ficro a macro er enghraifft,³¹ ond mae sgôp amlwg i ddatblygu dulliau gwerthuso effaith ieithyddol ymyraethau economaidd. Yn ogystal â diffyg consensws methodolegol, prin iawn yw'r dystiolaeth bod gweithgareddau sydd wedi bod ar waith yn ardal Arfor wedi effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar fywiogrwydd ieithyddol yr ardal.

³¹ Royles, E., (2019)

3 Ymchwil Pellach

Mewn ymdrech i ddatblygu corff o ddata fyddai'n sail i'r ymdrechion i ddatblygu Cynllun Strategol Arfor, aethpwyd ati i gasglu a dadansoddi data. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, cynhaliwyd ystod o dasgau ymchwil, gan gynnwys:

- Asesiad o'r data meintiol economaidd ac ieithyddol sydd ar gael
- Dadansoddiad econometreg o'r cyswllt rhwng yr economi a'r Gymraeg
- 43 cyfweiliad gyda rhanddeiliaid
- Holiadur ar-lein gydag ystod o gyrff ac unigolion
- Trafodaethau gydag academyddion, tîm Revitalise ac arbenigwyr polisi iaith
- Gweithdai gyda rhanddeiliaid, cynghorwyr a swyddogion Arfor.

Cyflwynir ychydig o'r data a'r casgliadau yn y bennod hon.

3.1 Dadansoddiad econometreg o'r cyswllt rhwng yr economi a'r Gymraeg

Mae 'econometreg' yn ffordd o gymhwyso dulliau ystadegol at ddata meintiol economaidd er mwyn adnabod ac amlygu cydberthnasau economaidd. Aethpwyd ati i geisio profi'r rhagdybiaeth sylfaenol sy'n wraidd i amcanion a rhesymeg y prosiect. Yn benodol, aethpwyd ati i **brofi'r berthynas rhwng datblygiad economaidd a thwf neu gynaliadwyedd yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg**. Aethpwyd ati i brofi'r rhagdybiaeth drwy dechnegau econometreg. Llusgwyd (*lagged*) twf GYC (Gwerth Ychwanegol Crynswth) o 1 a 2 flynedd ar wahân er mwyn craffu ar unrhyw effeithiau a ohiriwyd hefyd. Ond o ystyried yr amser a'r adnoddau cyfyngedig iawn sydd ar gael i brofi'r egwyddor, dylid ystyried y canlyniadau hyn fel canfyddiadau rhagarweiniol yn unig. **Ni ellir ystyried yr hyn sy'n dilyn yn gwbl gynhwysfawr.**³² Ar ben hynny, ni chafodd hyn ei gynnal yn y fformat confensiynol ar gyfer y math hwn o waith sy'n un o osod canlyniad atchweliad (*regression*) i gasgliad damcaniaethol rhagdybiedig; dadansoddwyd y data hwn heb unrhyw ragdybiaethau.

Mae sgôr o +1 yn Nhabl 1 isod yn dangos perthynas berffaith rhwng newidynnau, h.y. bod niferoedd siaradwyr yn cynyddu wrth i GYC gynyddu. Mae sgôr tuag at sero yn dangos dim perthynas ystyrion rhwng GYC a niferoedd siaradwyr, tra bod sgôr o -1 yn dynodi perthynas negyddol berffaith h.y. wrth i GYC dyfu, mae nifer y siaradwyr yn lleihau.

³² Wrth fynd ati i brofi'r berthynas ystadegol rhwng yr economi a'r iaith, ac effaith y naill ar y llall, roedd yn amlwg bod diffyg data addas ar gael i gynnal dadansoddiad ystadegol trylwyr a dwfn. Crafu'r wyneb yn unig oedd yn bosibl. Ystadegau a data amherffaith ar y gorau sydd ar gael. Nid yw niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn fesur da o hyfywdra na chynaliadwyedd iaith, na'i defnydd o fewn cymuned. Nid yw GYC na chyflogaeth yn fesuriadau perffaith ar gyfer mesur datblygiad economaidd. Nid oes data ychwaith ar gyfer rhanbarthau o fewn yr awdurdodau lleol i alluogi dadansoddiad manwl. Serch hynny, dyma'r data hanesyddol sydd ar gael.

Fel y dengys Tabl 1 isod, yng Ngwynedd yn unig, wedi llusgo twf GYC o flwyddyn, gwelwn berthynas arwyddocaol a phositif, ond bychan. Mae'n amlwg nad oes perthynas gadarnhaol iawn rhwng twf GYC a nifer y siaradwyr Cymraeg.

Tabl 1: Cyfernodau Cydberthyniad (*Correlation Coefficient*) (GYC a siaradwyr Cymraeg)

	Sylfaen	Llusgo o 1 flynedd	Llusgo o 2 flynedd
Gwynedd	0.029	0.145	-0.201
Môn	-0.522	-0.607	-0.661
Ceredigion	-0.325	-0.240	-0.129
Sir Gâr	-0.132	-0.089	0.059
Arfor	-0.360	-0.264	-0.319

Data: ONS / Wavehill

Yn wir, mewn 3 o'r 4 awdurdod lleol, y gwrthwyneb sy'n wir. Ymddengys bod cydberthynas negyddol rhwng twf GYC a'r Gymraeg. Yn achos Ceredigion a Sir Gâr, mae'r berthynas negyddol hon yn tueddu i wanhau dros amser, ond yn Ynys Môn, mae'r sefyllfa negyddol yn cydgrynhoi dros amser.³³ Adlewyrchir canlyniadau tebyg neu fymryn yn llai negyddol pan gaiff cyflogaeth ei gynnwys fel newidyn yn y dadansoddiad atchweliad. Roedd atchweliad logistaidd o ddata 'Understanding Society' ar gyfer 2009-11³⁴ yn awgrymu nad oedd perthynas ystyrlon rhwng gweithgarwch economaidd a'r Gymraeg.

Mae angen cydnabod cyfyngiadau difrifol yr asesiad hwn a'r ffaith ei bod yn hanfodol peidio â dod i gasgliadau pellgyrhaeddol neu ysgubol ar ei sail. Serch hynny, mae'r data yn cyflwyno elfennau newydd i'r ddadl, y ddealltwriaeth o'r broblem a rhesymeg rhaglen Arfor. **Nid yw'r data yn cefnogi'r rhesymeg bod datblygu'r economi, ac yn benodol creu mwy o swyddi yn gysylltiedig a chynnydd yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg bob tro.** Yn wir, mae awgrym bod y cynnydd economaidd o'r fath a welwyd yn Ynys Môn, ac i raddau yng Ngheredigion a Sir Gâr ers 2005 yn cyd-fynd â'r dirywiad ieithyddol. Rhaid pwysleisio nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r awgrym bod datblygiad economaidd yn achosi cwmp yn nifer y siaradwyr, ond mae perthynas ystadegol rhwng y datblygiad economaidd mewn lleoedd fel Ynys Môn a lleihad yn niferoedd siaradwyr. Mae natur y berthynas hon yn gofyn am gael ei harchwilio, ac mae'n ganolog i resymeg ac amcanion Arfor.

³³Mae'r sgôr R sgwâr hefyd yn 0.43 yn yr achos hwn – sy'n awgrymu ffit rhesymol.

³⁴Data ton 1^{af} sydd ddim wedi'u hailadrodd yn anffodus.

3.2 Cyfweiliadau rhanddeiliaid

Cynhaliwyd 29 cyfweiliad lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid, unigolion a mudiadau yng Nghymru. Cafodd y rhanddeiliaid eu hadnabod gan Swyddogion a Bwrdd Arfor, a gan y tîm ymchwil, ac fe'u dewiswyd ar sail eu gweithgaredd, diddordeb neu ymchwil ym maes polisi iaith, yr economi neu ardaloedd Arfor. Gwahoddwyd dros 150 o fudiadau ac unigolion i gyfrannu a rhannu eu barn a'u syniadau drwy holiadur. Mae'r is-bennod hon yn crybwyll prif themâu'r cyfweiliadau a'r holiadur ond mae pob dyfyniad yn cael ei gyflwyno'n ddi-enw, yn ôl amodau'r cyfweiliadau.

Natur y Broblem a Rhesymeg Arfor

Cyflwynwyd rhesymeg Arfor i'r rhanddeiliaid gan ddyfynnu dogfennaeth swyddogol y rhaglen;

'Bwriad y Rhaglen yw cefnogi creu mwy a gwell swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg a thrwy hynny cefnogi parhad a thwf y Gymraeg'

Wedi gofyn am ymateb, roedd anghytundeb ymysg yr ymatebion, gyda dros hanner yn hapus ac yn gytûn â rhesymeg Arfor ond lleiafrif sylweddol yn herio'r rhesymeg a sail y rhaglen.

Roedd y rhai a oedd yn cytuno yn mynegi boddhad, ac yn aml adroddwyd naratif cyson a chyfarwydd ynglŷn â'r broblem sydd wrth wraidd y rhaglen. Roedd y rhain yn tynnu sylw at ddiboblogi, yn arbennig ymysg yr ifanc, ac yn cynnig rhesymau fel cyflogaeth a chreu 'swyddi o safon' yn yr ardal fel ffactorau a allai atal y bobl ifanc rhag gadael. Yn wir, datgelodd sylwadau o'r fath mai pen taith ragdybiedig Arfor yw sicrhau gwell cyflogaeth i bobl ifanc yn yr ardal, yn y gobaith neu gan gynnig y bydd hynny'n sicr o gael effaith gadarnhaol ar y sefyllfa ieithyddol.

'Mae'r Rhesymeg yn hollol glir am fod parhad y Gymraeg yn cadarnleoedd yn bwysig....'

'...mae cael safle gwaith sy'n Gymraeg ei iaith yn amlwg yn mynd i gryfhau'r Gymraeg yn gymdeithasol.'

'Mae cyfleon gwaith yng nghefn gwlad yn bwysig i gadw pobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn yr ardal'

'Mae angen rhoi rheswm i bobl i aros yng nghefn gwlad Cymru ac i fyw ac i ffynnu lle maen nhw. Mae'r diboblogi yn arswydus. Mae'r ystadegau yn arswydus. Ni'n ddall iddo fe. Ond mae'n broblem ddifrifol. Mae angen gweld cynnydd iaith a chadw ein pobl ni.'

'With regard to having an impact, because the overarching aim is to stop young people to leave the county, we have to look at what measures are going to be put in place to look at that'

'Prif ffocws ddylai fod dad-wneud y broses all-boblogi pobl ifanc. Dyna fyddai un o'r mesuriadau mwyaf pwysig o lwyddiant Arfor dros y 10 mlynedd nesaf.'

Ond roedd lleiafrif o blith y rhanddeiliaid yn fwy parod i herio'r sail hon, a natur y broblem. Bu rhai yn tynnu sylw at yr ardal o dan sylw a'r cysyniadoli problematig o'r 'Fro Gymraeg' sydd ar waith wrth geisio datblygu ymyraethau polisi heb ddiffinio pen y daith.

'Mae wedi seilio ar ddiffiniadau wishy-washy o'r 'Fro Gymraeg'. Beth ydyn ni'n trio creu neu ail-greu fama?'

Bu eraill yn pwysleisio tuedd nifer sydd yn weithgar ym maes polisi iaith i ganolbwyntio ar rôl y Gymraeg o fewn busnes a'r economi, yn hytrach nag ar effaith prosesau economaidd ar y Gymraeg. Tra bod tystiolaeth yn cefnogi'r budd o ddefnyddio a dangos y Gymraeg o fewn busnesau ac wrth fasnachu, ychydig o dystiolaeth sydd ar gael i lywio prosesau ac ymyraethau economaidd sy'n sensitif i'r iaith. Roedd trafodaethau cyhoeddus a pholisi hefyd yn dueddol i fynd i drafod rôl y Gymraeg o fewn yr economi, yn hytrach na rôl yr economi a'i phrosesau wrth effeithio ar batrymau defnydd iaith. Yn nhyb y rhanddeiliaid hyn, roedd angen rhoi sylw i effaith y prosesau economaidd ar yr iaith, yn hytrach nag effaith yr iaith ar yr economi a busnes.

Cyfeiriwyd at ffactorau ehangach fel rhai sy'n cyfrannu at dranc sefyllfa'r iaith hefyd. Cred rhai fod sgil-ffeithiau globaleiddio ac ehangu marchnadoedd llafur yn ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith yn ogystal â rhesymau unigolion ifanc dros adael eu hardaloedd genedigol. Roedd eraill yn awyddus i bwysleisio ffactorau sy'n cyfyngu ar gyfleoedd bywyd a gwaith yn yr ardal, a phwysleisiwyd gwendidau isadeiledd trafndiaeth, tai a digidol yn aml.

Bu rhai rhanddeiliaid hefyd yn cwestiynu rhesymeg y rhaglen, gan herio'r diffiniad o 'gwell swyddi'. Dywedodd y rhain nad oedd diffiniad clir o beth oedd 'swydd well'; ac y gallai 'swydd well' gael ei diffinio yn ôl lefel cyflog, safon bywyd neu ei chyfraniad i gynaliadwyedd a hyfywdra'r iaith. Bu eraill hefyd yn herio rhesymeg y rhaglen, a'r cynnig bod siaradwyr Cymraeg yn ei chael yn anos dod o hyd i 'swyddi gwell'. Bu rhai hefyd yn cynnig nad oedd cyswllt achosol rhwng y diffyg 'swyddi gwell' yn yr ardal gyda'r iaith. Yn hytrach, cyddigwyddiad oedd fod yna ddiffyg 'swyddi gwell' mewn ardal lle mae'r Gymraeg yn gryf.

‘That’s suggesting people who speak Welsh don’t have as good jobs as those who [only] speak English. Creation of more jobs is good, but I’m not sure if that ties to Welsh language capability – don’t think Welsh speakers are more disadvantaged – the reverse is probably true, particularly in the public sector.’

Bu rhai yn feirniadol o resymeg y prosiect ac yn amheus o’r ddealltwriaeth o’r ‘broblem’ sydd wrth wraidd y rhesymeg h.y. bod pobl ifanc yn gadael yr ardal er mwyn chwilio am ‘swyddi gwell’. Cynigiodd y rhanddeiliaid hyn yn eu tro fod angen edrych ar ystod ehangach o ffactorau sy’n annog allfudo, ac y dylid derbyn bod angen newid ffocws gweithgaredd Arfor a symud i ystyried elfennau eraill megis denu pobl yn ôl i’r ardal.

‘Mae’n llawer fwy cymhleth na just gwaith. Diffyg swyddi yw’r “official line” mae’n rhaid deud. Ond mae’n lot fwy cymhleth; dydyn nhw ddim yn teimlo’n rhan o’r gymuned... dydyn nhw ddim eisiau bod yn ‘Gymraeg’ os yw hynny’n golygu bod yn ffermwr. Mae mudo yn rhan o batrwm bywyd. Ac mae nhw’n teimlo y dyle nhw fynd – mae’n fesur o lwyddiant. Gwneith hynny byth newid.’

Yn olaf, trodd rhai eu sylw at y blynyddoedd o weithredu a chefnogi busnesau a sectorau economaidd. Doedd cefnogi sectorau economaidd yn yr ardaloedd i greu mwy o swyddi ddim i’w gweld yn llwyddo i gadw pobl ifanc rhag gadael.

‘Dydy’r model ddim wedi gweithio. Dydy beth maen nhw’n gwneud ddim yn gweithio. Does dim newid sylweddol yn ôl beth sydd yn cael ei gynbig. Ry’ ni wirioneddol wedi colli pwynt pwysig o roi popeth i mewn i swyddi a’r syniad fod swyddi gwell yn mynd i ddenu pobl yn ôl neu i aros. Ni’n sôn am ardaloedd tlawd sydd ddim yn ddeniadol. Dy’ ni ddim wedi cael y *fundamentals* yn iawn yn hynny ac mae yna ddiffyg dealltwriaeth go-iawn o bobl llawr gwlad. Dydy’r ugain mlynedd diwethaf heb weithio – dy’ ni ddim mewn gwell sefyllfa nawr... Mae angen gwneud yr ardaloedd yn llefydd gwell i fyw i ddenu mwy o bobl yn ôl.’

Casgliad posibl dadl o’r fath yw nad yw parhau gydag ymyraethau tebyg i’r rheini sydd wedi bodoli hyd heddiw yn debygol o wella’r sefyllfa ymhellach.

[Diffyg Ymchwil](#)

Thema gyson ac amlwg a godwyd yn ystod y cyfweiliadau, yn arbennig gydag ymchwilwyr a llunwyr polisi, oedd y diffyg ymchwil a data cadarn sydd ar gael er mwyn asesu, datblygu a llunio polisi effeithiol yn y maes yn seiliedig ar dystiolaeth. Bu rhai academyddion a llunwyr polisi yn canolbwyntio ar y diffyg setiau data oedd ar gael ar gyfer monitro ac ymchwilio’n feintiol i’r maes, ac ymchwilwyr eraill yn nodi’r diffyg ymchwil oedd yn dadansoddi’r cyswllt rhwng yr economi a’i heffaith ar iaith. Roedd eraill, yn arbennig rhanddeiliaid â phrofiad o weithio ar lawr gwlad, yn cynbig nad oedd corff eang o waith gwerthuso ar gael, a thystiolaeth i gefnogi neu esbonio effaith yr hyn oedd wedi bod ar waith yng Nghymru dros y degawdau diwethaf.

‘There isn’t a clear idea about what they want to do, they don’t have clear objectives and measures to look at improvement – it’s starting from a shaky premise because no evidence, and not particularly capturing evidence as we go through – so it’s all a bit woolly.’

‘Does dim digon o waith ar effaith yr economi ar yr iaith. Pa sectorau y dylwn fod yn datblygu? Pa fath o fentrau sy’n creu gwell swyddi? Pa fath o ddatblygiadau economaidd mwy sydd yn mynd i helpu?’

‘Regarding having an impact; because the overarching aim is to stop young people from leaving the county – what measures are going to be put in place to look at that? There are social issues around outward migration, perhaps research should be done on why people leave. We don’t have any baseline to start from. So the issue is, it isn’t measured appropriately so won’t be able to demonstrate what it has achieved.’

Gweithredu Strategol

Roedd cryn gonsensws ymysg yr rhanddeiliaid ynglŷn â’r angen i weithredu ar lefel strategol yn ogystal ag ymyraethau llawr gwlad. Ond doedd dim consensws cyffredinol ar ffocws delfrydol y gweithredu strategol. Yn aml, roedd y syniadau yn brin o fanylder hefyd, ac yn adlewyrchiad o’r meddwl arloesol ac uchelgeisiol, ond cychwynnol. Thema gyson arall a ddaeth yn amlwg yn y sylwadau ar weithredu strategol, oedd yr angen neu’r fantais o gael y pedwar awdurdod lleol yn cydweithredu a chyd-ymyrryd – mater a drafodir isod.

Prifysgolion oedd ffocws un garfan o ymatebion er enghraifft, a rôl bosibl y tair prifysgol yn yr ardal. Gwelwyd cyfle i dynnu’r prifysgolion yn agosach at gynllunio economaidd a datblygu’r gweithlu yn yr ardal gydag ymyraethau a chydlynu effeithiol. Gwelwyd Arfor, a chydlynu a chydweithredu dros yr ardal fel modd o lywio gwaith y prifysgolion.

‘Mae rôl i’r prifysgolion. Wrth iddyn nhw grebachu oherwydd y sefyllfa ariannol – ydyn nhw’n mynd i fedru crebachu a mynd yn ôl i’w gwerthoedd craidd a bod yn rhan o’r gymuned yn hytrach na busnesau – ail greu eu gweledigaeth? Cafodd Bangor ei chreu er mwyn addysgu’r ardal leol a phontio i mewn i’r byd yn lleol. Dydy’r cysylltiad yna ddim hanner ddigon cryf bellach.’

Bu eraill yn dadlau fod gan Arfor, fel pedair sir, y gallu i ddylanwadu ac annog diwygiadau polisïau llywodraethol. Roedd rheoleiddio cynllunio yn fater a godwyd yn gyson, a’r rhagdybiaeth nad oedd y system yn ‘ffitio’ economi na sefyllfa ieithyddol ardal Arfor.

‘Un o’r rhwystredigaethau i fi yw’r rheolau mân o amgylch cynllunio cefn gwlad – mae’n weddol rhwydd datblygu mewn tref o gymharu â chefn gwlad. Mae pob math o fusnesau wedi methudatblygu o achos y system gynllunio.’

Roedd gan sawl rhanddeiliad weledigaeth bellgyrhaeddol ynglŷn ag amcanion ac effaith economaidd hirdymor y rhaglen. Ym marn rhai, y nod fydd trawsnewid gorwelion economaidd a natur y farchnad lafur yn yr ardal.

‘Mae creu marchnad lafur ranbarthol o fewn Arfor yn bwysig lle mae pobl o’r De Orllewin yn y rhanbarth yn meddwl fod modd symud i’r Gogledd Orllewin am ychydig. Dod yn rhan o ddewisiadau naturiol pobl.’

‘Y peth mwyaf uchelgeisiol... y[w’r] syniad o greu rheilffordd ar hyd y Gorllewin. Mae deuli’r hewl ym Mlaenau’r Cymoedd wedi costio tua £1bn, felly ‘dyw e ddim y tu hwnt i reswm i 4 awdurdod lleol sy’n agos i weld hynny fel ffordd i gysylltu’r ranbarth...’

Datblygu ardal Arfor fel actor ffurfiol

Roedd nifer yn cydnabod budd posibl y pedwar awdurdod lleol yn gweithredu fel un, ac yn awyddus i weld Arfor yn mabwysiadu rôl strategol, ac yn gweithredu fel actor fyddai’n medru dylanwadu ar bolisiau llywodraethol a chynllunio economaidd ranbarthol, yn arbennig yng nghyd-destun datblygiad ranbarth-ddinasoedd. Y gobaith i’r rhanddeiliaid hyn oedd gweld Arfor, drwy fanteisio ar bwysau pedwar awdurdod lleol, yn gosod materion megis ymfudo, isadeiledd wledig a’r Gymraeg ar agenda gwneuthurwyr polisi economaidd.

Gwelai nifer hefyd y potensial o ychwanegu awdurdodau lleol eraill i Arfor yn y tymor hir i gryfhau pŵer yr actor hwn, ac yn eu barn nhw doedd dim rheswm pam nad oedd Sir Benfro a Sir Conwy, ac o bosibl Powys ac ardaloedd o’r hen Glwyd yn gallu cymryd rhan. Yn y bôn, gwelir cysyniad fel Arfor fel modd o luosi dylanwad a phwysau awdurdodau lleol gwledig – sy’n wynebu heriau economaidd, demograffig ac ieithyddol tebyg – ac ehangu’r cyfleoedd i hyrwyddo arfer da a chyfeirio strategaethau, polisiau ac ymyraethau ehangach mewn modd fyddai’n sicrhau budd i ardal Arfor a’r Gymraeg.

‘Mae angen rhyngweithio gyda’r cynghorau sir. Mae modelau am y fath yna o beth. Creu cydbwyllgor os oes angen. Blaenau’r Cymoedd wedi dod at ei gilydd i lobio gyda’i gilydd ac i sicrhau yr ‘Heads of the Valleys’ road. Mae hynny’n dibynnu ar y parodrwydd i gydweithio wrth gwrs.’

‘Y broblem, os wyt ti’n mynd fesul sir, yw bo’ ti’n tueddu i gweld eu bod nhw’n trio yn galed. Ti’n gweld yng Nghaerfyrddin y *commitment* i newid pethau ac ymladd dros yr iaith. Ond pan ti’n edrych ar restr o bethe penodol maen nhw’n trio gwneud, mae’n edrych fel *business as usual*. Felly i Arfor, mae rhaid bod uchelgais sy’n fwy na’r siroedd ar wahân. Achos mae’n edrych i fi fel pedwar sir yn gwneud eu peth eu hun. Felly mae angen uchelgais sy’n cysylltu’r pedwar sir at ei gilydd yn fwy. Rhoi maint iddyn nhw i ddadlau am ymateb wrth y llywodraeth, i ymladd *market failure*...’

‘Un peth yw bod yn glir am amcanion ar gyfer hyrwyddo’r naratif cyffredinol o gefnogi’r economi mewn ardaloedd Cymreig. Ond faint o’r gwaith i gyflawni hynny sy’n gallu cael ei dynnu o wariant Arfor, a faint sy’n digwydd o allu dylanwadu ar lefydd eraill. Mae angen defnyddio *leverage* er mwyn gwneud hynny’n iawn. Mae angen amcan clir o beth sydd eisiau a sut i’w gwireddu yn yr hirdymor. Sut mae Arfor yn gweithio fel cyfansawdd? ... Tase nhw’n gweithio efo nod cyffredin gyda llywodraethau [lleol] eraill, buasai gallu Arfor cymaint yn fwy. Ond mae hynny’n rili heriol.’

‘Os taw £2m yw’r cyllid – ‘dyw hynny ddim yn lot i adael ôll troed sylweddol. Y llwybr arall yw i ddylanwadu ar eraill i weithredu yn gallu gadael mwy o waddol tymor hir. Dylai fod nodau hirdymor. Mae angen creu newid diwylliannol a gwleidyddol sy’n lot mwy heriol ond lot mwy effeithiol. Roedd gan y WDA er enghraifft, targedau rhanbarthol am swyddi a dull o gynllunio economaidd rhanbarthol, 10 mlynedd yn ôl, oedd yn fwy *sensitive* i anghenion ardaloedd Cymraeg. Dydy *City Regions just* ddim yn meddwl gyda’r iaith mewn golwg.’

‘Gall Arfor fod yn hyrwyddo prif-ffrydio iaith mewn cynllunio economaidd. Ddim *just* yn actor ond yn bwysau hefyd.’

Roedd carfan fach hefyd yn gweld y rhaglen yn ei chyd-destun gwleidyddol, ac fel modd o ddatblygu a chyfiawnhau’r ddadl dros gefnogaeth bellach a hirdymor i’r ardal.

‘Mae angen ymchwil i gefnogi’r ddadl a rhoi cig ar asgwrn y ddadl fod angen bargaen wledig i Gymru. Mae angen gwneud yr achos am fargaen wledig economaidd... dwi’n gobeithio fod yr hyn ni’n gwneud a chyflawni o dan Arfor yn rhoi rheswm i fynd at Llywodraeth Cymru i fynnu parhad a chynnydd yn y rhaglen. Byddai bargaen wledig yn wych. Ond o leiaf [cyfiawnhau] parhau fel Arfor.’

Gweithredu Penodol

Doedd dim prinder syniadau am raglenni ac ymyraethau llawr gwlad y credai rhanddeiliaid y dylid eu hariannu drwy Arfor. Gellir rhannu’r awgrymiadau hyn i dair carfan, a’r bedwaredd oedd dadlau o blaid ariannu ymchwil pellach a gwerthuso ymyraethau cyfredol.

Yn gyntaf, bu rhai yn dadlau dros fwy o nawdd i raglenni a oedd yn bodoli eisoes. Enwyd rhaglenni a sectorau penodol fel Llwybrau’n Lleol neu’r sector bwyd yng Nghaerfyrddin a’r sector twristiaeth yn y Gogledd. Cyfiawnhad hyn oedd y pwysau economaidd, y prinder cyllid i gefnogi’r sectorau hyn, a’r ffaith eu bod wedi eu cydnabod fel sectorau allweddol o fewn yr ardal.

Roedd carfan arall o randdeiliaid yn awyddus i weld Arfor yn buddsoddi mewn ymyraethau a rhaglenni arloesol, ac yn archwilio mathau eraill o gefnogaeth. Y cyfiawnhad dros wneud hyn oedd, yn aml, y ddadl bod cyllid eisoes yn bodoli ar gyfer ymyraethau a sectorau allweddol. Bu rhai hefyd yn cynnig na ddylid ceisio cefnogi sectorau economaidd fel amaeth, oedd yn cyflogi niferoedd cymharol isel ac yn ychwanegu llai o werth na sectorau allweddol eraill.

Roedd eraill yn fwy uchelgeisiol, ac roedd nifer o'r rhain, er enghraifft – gan dderbyn cyfyngiadau'r nawdd oedd ar gael – yn cynnig y dylid canolbwyntio ar ddatblygu isadeiledd digidol yr ardal, fel modd o leihau neu leihau effaith pellenigrwydd daearyddol ac economaidd yr ardal.

'Dwi'n meddwl fod rhaid i ni fod yn agored ein meddwl ynglŷn â'r swyddi. Ar ôl gweithio gyda Terry Matthews, ['dwi o'r farn mai] un o'r pethau yw sicrhau fod gyda ni gysylltiad – mae'r isadeiledd digidol yn fwy pwysig nag isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd – mae'n cysylltu ni â'r byd.

4 Proffil o ardal Arfor a Llinell Sylfaen

Mae'r bennod hon yn trafod y sefyllfa economaidd-gymdeithasol yn ardal Arfor.

Ardal Arfor

Ardal hybrid yw Arfor, yn cwmpasupedwar awdurdod lleol; Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr. Mae'r ardal yn cynnwys ychydig dros draean o arwynebedd tir Cymru. Cyfanswm poblogaeth Arfor yw ychydig dros 450,000, sydd tua 14% o gyfanswm poblogaeth Cymru, felly mae'r dwysedd tir tua 60 o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 151.

Gellir disgrifio'r ardal fel un wledig, ond mae rhai nodweddion unigryw iddi sy'n ei gwneud yn wahanol i ardaloedd gwledig eraill y DU. Yn bennaf, mae'n gartref i dair prifysgol yn ogystal â phorthladd â chyswllt rhyngwladol. Ar y cyfan, mae'r pedwar awdurdod lleol yn wynebu heriau a sefyllfa debyg.

Serch hyn, mae'r isadeiledd trafniadaeth a phatrymau cymudo yn gwanhau'r awgrym y gellir ystyried y pedair sir fel rhanbarth economaidd. Mae patrymau mudo'n tueddu i symud o'r gorllewin i'r dwyrain, gan ddilyn y prif heolydd a'r unig reilffyrdd. Does dim cyswllt gogleddde sy'n gymharol â'r cysylltiadau gorllewin-dwyrain ac mae'r patrymau cymudo a gweithio rhwng y ddwy sir ogleddol a'r ddwy ddeheuol yn wan.

Mae'r ardal hefyd yn gartref i'r gyfradd uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y wlad. Mae ychydig dros 50% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg ac mae'r ardal yn cynnwys ychydig dros 40% o'r holl siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r ardal felly, o ystyried ei nodweddion, yn addas ar gyfer treialu ymyraethau economaidd ag amcanion ieithyddol.

4.1.1 Proffil ardal Arfor

Economi ardal Arfor

Mae dadansoddiad llinell sylfaen o economi ardal Arfor wedi nodi'r canlynol:

1. Ar y cyfan mae Arfor wedi profi twf cadarnhaol, yn enwedig cyn y dirwasgiad diwethaf (2008/9). Er y byddai hyn wedi amrywio ar draws y pedwar awdurdod lleol, yn gyffredinol, cafwyd perfformiadau cryf ar draws rhai o'r dangosyddion economaidd-gymdeithasol allweddol.
2. Ers y dirwasgiad bu rhywfaint o ddargyfeiriad mewn perfformiad economaidd o gymharu â gweddill Cymru, a bydd gan hyn oblygiadau i ardal Arfor yn y dyfodol.
3. Roedd twf GYC wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd hyd at y dirwasgiad, ers hynny mae wedi gwanhau, ac mae'r rhagolygon yn awgrymu ei fod yn faes y disgwylir twf is na'r cyfartaledd Cymreig dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r gwendid hwn yn dod i'r amlwg ar draws nifer o ddangosyddion allweddol eraill megis GYC y pen, incwm aelwydydd crynswth a phoblogaeth.

Er bod y farchnad lafur yn yr ardal wedi llwyddo i gadw'n agos at batrymau cenedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhagolygon yn cynnig y byddai'n perfformio'n waeth na'r cyfartaledd Cymreig, ac yn debygol o barhâu i wneud.

Poblogaeth ac ymfudo

4. Disgwylir i'r twf yn y boblogaeth arafu dros amser, o bosibl o ganlyniad i'r dirwasgiad diwethaf lle gwelwyd toriad yn y tueddiadau ystadegol a oedd yn dilyn cyfartaledd Cymru cyn hynny. Gall rhywfaint o'r arafu yn nhwf y boblogaeth fod yn gysylltiedig hefyd â mudo net negyddol, yn enwedig unigolion 20-30.
5. Mae pobl ifanc yn gadael ardal Arfor. Mae'r rhan fwyaf yn symud i Loegr, ond mae niferoedd uchel yn symud i ardaloedd eraill yng Nghymru hefyd. Mae peth ymfudo rhwng awdurdodau lleol ardal Arfor a pheth ymfudo o Gymru i ardal Arfor. Mae niferoedd bron mor uchel o bobl ifanc yn ymfudo i ardal Arfor hefyd, yn debygol er mwyn astudio yn y prifysgolion, ond mae tua hanner mewn band oedran hŷn hefyd, dros 30 oed.
6. Does dim llawer o ddata i esbonio'r patrymau hyn y tu hwnt i'r ychydig erthyglau a nodwyd uchod, yn arbennig mewn perthynas â'r ymfudo i ardal Arfor gan unigolion dros 30 oed

Mae pobl ifanc yn gadael ardal Arfor. Dyma un o wendidau strwythurol economi'r ardal. Mae'r golled o bobl ifanc sy'n weithgar yn economaidd yn golled o siaradwyr Cymraeg hefyd. Ond ychydig o ddata sydd ar gael ynglŷn â chymhelliant yr unigolion hyn. Ochr yn ochr â'r allfudo, mae'n rhaid ystyried y niferoedd tebyg sy'n dod i mewn i'r ardal. Does dim dealltwriaeth o gymhelliant ymfudwyr 25-44 oed sy'n symud i'r ardal. Does dim data ar broffil ieithyddol yr unigolion sy'n ymfudo ychwaith.

Marchnad Lafur a natur yr economi

7. Mae'r farchnad lafur yn yr ardal hon yn parhau i berfformio yn gymharol lwyddiannus. Mae cyflogaeth, diweithdra, sgiliau/cymwysterau ac anweithgarwch economaidd wedi perfformio o gwmpas y cyfartaledd Cymreig yn gyffredinol (os nad yn uwch) ers dirwasgiad 2008.
8. Mae lefelau cymwysterau unigolion ardal Arfor yn codi, er eu bod yn llusgo y tu ôl i'r cyfartaledd Cymreig. Ond mae eithriad nodedig ymysg unigolion sy'n sicrhau cymhwyster lefel 4 neu'n uwch, lle gwelwn hyd at bum gwaith y cyfartaledd Cymreig o fewn yr ardal. Mae'r unigolion hyn yn debygol iawn o fod yn gysylltiedig â'r prifysgolion. Mae angen data ac ymchwil pellach i allu dadansoddi effaith neu effaith bosibl yr unigolion hyn ar yr economi yn y dyfodol, neu'r bwlch rhwng y gweithlu medrus hwn a'r farchnad lafur yn lleol.

9. Mae dadansoddiad LQ³⁵ yn amlygu gwendid strwythurol pellach yn economi'r ardal. Mae'r diffygion hyn yn amlwg mewn cymhariaeth LQ â Chymru, ond byddent dipyn yn fwy amlwg mewn cymhariaethâ gweddill y DU. Mae cryfderau allweddol mewn amaeth, twristiaeth a'r sector cyhoeddus i gyd yn amlwg yn y dadansoddiad. Serch hyn, mae'r sectorau hyn, megis amaeth, ac o bosibl twristiaeth, yn wynebu heriau penodol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, neu o ganlyniad i effaith Covid-19.
10. Yn ogystal â'r heriau hirdymor hyn mewn sectorau lle mae perfformiad cryf, mae'r dadansoddiad yn gweld gwendid strwythurol pellach yn economi'r ardal. Nid yw'r sectorau hynny sydd â nodweddion twf pwysig a gwerth uchel yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y rhan hon o Gymru. Mae hyn yn cefnogi'r rhagolygon a wnaed mewn perthynas a GYC. Mae strwythurau yn tueddu i aros yn gyson dros y tymor byr-canolog felly, ond mae pethau'n llai sicr ar gyfer y dyfodol wrth i'r sectorau sy'n ychwanegu gwerth dyfu'n arafach yn ardal Arfor nag yng ngweddill Cymru a'r DU.

Gan fod y farchnad lafur yn gymharol â'r cyfartaledd cenedlaethol, ond mae'r data a dangosyddion cyfoeth yn dirywio, gellir tybio bod gwerth yr economi yn gwanhau'n strwythurol yn yr ardal. Awgryma'r data fod economi'r ardal wedi'i gogwyddo tuag at sectorau sydd â sylfaen gwerth is a rhagolygon twf gwannach. Mae'r sectorau hyn hefyd yn wynebu heriau penodol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE (sector amaeth yn benodol) a COVID-19. Mae'r sectorau gwasanaethau masnachol sy'n gysylltiedig â thwf allweddol yn llai yn yr ardal. Mae llai o gyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau twf gwerth uchel yn nodwedd o economi ardal Arfor.

Y Gymraeg

11. Er bod pocedu eithriadol, mae'r ganran sy'n deall (ac yn gallu siarad) y Gymraeg ar draws yr ardal yn is o dipyn na'r trothwy o 70% y rhagdybir sydd ei angen ar gyfer cynaliadwyedd ieithyddol.
12. Does dim tystiolaeth ystadegol gref fod yna berthynas bositif rhwng twf economaidd a thwf mewn cynaliadwyedd ieithyddol.³⁶ Yn wir, mae awgrym bod y berthynas yn un negyddol mewn rhai ardaloedd. Gall mwy o ddata ac ymchwil wella'r ddealltwriaeth o'r cyswllt rhwng tueddiadau economaidd â'r iaith, neu wella'r ddealltwriaeth o ba agweddau neu brosesau economaidd penodol sy'n niweidiol, a pha rai sydd yn cefnogi'r Gymraeg.
13. Mae llai o gyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau twf gwerth uchel, ond nid yw'r data yn cynnig y gall fod yn ffactor posibl neu beidio, sy'n annog unigolion i ymfudo allan o'r ardal hefyd.

³⁵ Mae Location Quotient neu 'gyniferydd lleoliad' yn cymharu rhanbarth â rhanbarth arall neu fwy (yn yr achos hwn, ardal Arfor â Chymru). Mae'r gymhariaeth yn cynnig darlun o 'faint' sector fel rhan o'r economi o'i gymharu â'r cyfartaledd ehangach (Cymru yn yr achos hwn).

³⁶ Rhaid nodi cyfyngiadau'r data eto yma, ac felly'r dadansoddiad.

Mae niferoedd siaradwyr Cymraeg ardal Arfor wedi disgyn dipyn yn is na'r trothwy sydd ei angen ar gyfer cynaliadwyedd, sydd ynddo ei hun yn cyfiawnhau rhesymeg o ymyrraeth i wella'r sefyllfa. Ond does dim digon y dystiolaeth na data i allu dod i gasgliadau clir ynglŷn â'r cyswllt rhwng yr economi a'r sefyllfa ieithyddol. Does dim data ychwaith ar y math o ddatblygiadau, y tueddiadau neu'r ymyrraethau economaidd sy'n effeithio ar batrymau ieithyddol, yn gadarnhaol neu'n andwyol. Er bod pobl ifanc yn gadael yr ardal, does dim llawer o dystiolaeth i gysylltu'r ymfudo â'r (ychydig yn) llai o gyfleoedd cyflogaeth mewn sectorau twf gwerth uchel sydd yn yr ardal. Gwan felly yw'r data i gefnogi canolbwyntio ar greu swyddi o safon uchel i annog pobl ifanc i aros yn yr ardal.

5 Casgliadau Interim ac Argymhellion Cychwynnol

5.1 Casgliadau Interim

Natur y broblem a'r rhagdybiaeth

Gan fod rhagdybiaeth fod y bobl ifanc yn gadael er mwyn sicrhau gwell cyflogaeth, tybir felly mai'r ymateb mwyaf effeithiol fydd ceisio creu mwy o swyddi, a swyddi gwell, yn ardal Arfor, gan dybio y bydd pobl ifanc yn dewis aros yn yr ardal. Mae data yn dangos bod pobl ifanc yn gadael ardal Arfor yn eu miloedd bob blwyddyn, yn bennaf i Loegr, ond hefyd i ardaloedd eraill yng Nghymru, gan gynnwys ardaloedd eraill yn ardal Arfor. Mae niferoedd tebyg o bobl ifanc yn dod i'r ardal, ond yn debygol iawn am gyfnodau byr i'r prifysgolion.

Er bod y farchnad lafur yn yr ardal wedi llwyddo i gadw'n agos at batrymau cenedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhagolygon yn cynnig bod ymfudo yn un o wendidau strwythurol economi'r ardal, sy'n debygol o olygu y bydd yn tyfu'n wannach yn y dyfodol. Yn ogystal â'r ymfudo, mae economi'r ardal wedi gogwyddo tuag at sectorau sydd â sylfaen gwerth is a rhagolygon twf gwannach. Gellir tybio bod llai o swyddi â chyflogau uchel o ganlyniad i hyn.

Mae data a thystiolaeth i gefnogi craidd y rhagdybiaeth felly, mai ymfudo yw un o brif heriau economaidd-ieithyddol yr ardal. Ond mae ymchwil ehangach yn herio manylion y rhagdybiaeth a'r ymatebion sydd wedi eu cynnig hyd yn hyn.

Ychydig iawn o dystiolaeth er enghraifft, sy'n cefnogi'r rhagdybiaeth mai oherwydd resymau cyflogaeth yn unig y mae pobl ifanc yn gadael ardal Arfor. Yn wir, mae dystiolaeth gyferbyniol yn bodoli hefyd, sy'n cynnig bod rhesymau pobl ifanc dros adael yn gymysg ac yn gymhleth.

Mae rhanddeiliaid yn y cyfamser yn cwestiynu'r amcan o gadw pobl ifanc yn yr ardal, sydd yn ei hanfod yn ymdrech i ffrwyno patrymau mudo ehangach o ardaloedd gwledig i'r trefi. Mae rhai yn eu tro yn cynnig y dylid canolbwyntio ar geisio annog unigolion i ddychwelyd i'r ardal yn hwyrach yn eu bywydau.

Gwan yw'r dystiolaeth hefyd i gefnogi'r rhagdybiaeth bod perthynas bositif rhwng datblygiad economaidd a sefyllfa'r iaith yn mhob achos h.y. bod creu swyddi yn cefnogi'r iaith. Yn wir, mae rhai dadansoddiadau yn cynnig bod perthynas negyddol rhwng yr economi a'r iaith ar adegau, a bod sefyllfa'r iaith yn gwaethygu wrth i'r economi gryfhau mewn rhai ardaloedd. Gwelir bod data meintiol yn cynnig perthynas andwyol rhwng sectorau penodol o'r economi â'r Gymraeg hefyd (sector cyhoeddus), neu ddim perthynas o gwbl (amaeth), tra bod perthynas gadarnhaol rhai sectorau â'r Gymraeg (twristiaeth) yn gorfod cael ei deall yng nghyd-destun yr effaith andwyol yn yr hirdymor. Does dim diffiniad clir o 'swyddi gwell' ychwaith, na thystiolaeth yn cynnig pa fathau o 'swyddi gwell' fyddai'n annog pobl ifanc a siaradwyr Cymraeg i aros yn yr ardal.

Yn olaf, nid yw'r ystod o ymyraethau a chefnogaeth sydd wedi bod ar waith hyd yn hyn wedi cael effaith ddelfrydol ar y sefyllfa ieithyddol. Mae'n anodd gweld ymyraethau tebyg i'r rhai sydd wedi bod ar waith dros y degawdau diwethaf yn effeithio ar y sefyllfa mewn ffordd wahanol.

Mae'r data a ddadansoddwyd yn y ddogfen hon yn cynnig bod y broblem sydd wrth wraidd y rhaglen yn fwy cymhleth na hyn. Mae angen gwell dealltwriaeth o'r broblem hon, cyn symud at ddatrysiadau yn hyderus.

Yr angen i ddatblygu dealltwriaeth

Er -bod tystiolaeth i gefnogi'r rhagdybiaeth mai ymfudo yw craidd 'y broblem', mae diffyg tystiolaeth i gefnogi rhagdybiaeth y rhaglen yn llwyr, yn enwedig yr awgrym y bydd creu mwy a gwell swyddi yn datrys y broblem. Mae sgôp i ddatblygu ein dealltwriaeth ymhellach gan ddechrau drwy ddatblygu dealltwriaeth o natur y broblem. Mae angen ateb cwestiynau allweddol megis;

- pwy sy'n mudo allan o'r ardal ac i mewn iddi (h.y. proffil manwl o allfudwyr)?
- beth yw cymhelliad pobl dros fudo allan o ardal Arfor?
- beth yw cymhelliad pobl dros symud i ardal Arfor, neu yn ôl iddi?
- Pa weithredoedd fydd, o ganlyniad, yn lleihau'r allfudo ac yn annog ymfudo sydd o fudd i'r iaith?
- Pa fath o swyddi sy'n denu pobl i aros neu ddychwelyd/ddod i ardal wledig?
- Pa effaith y mae gweithgarwch economaidd yn ei chael ar niferoedd siaradwyr, defnydd a chaffael iaith?

Mae cwestiynau pellach yn codi yn sgil archwilio'r materion uchod, megis;

- A ddylai polisi ganolbwyntio ar rwystro pobl ifanc rhag gadael yr ardal, neu ar ddenu pobl yn ôl?
- A ddylid canolbwyntio ar ddatblygu sectorau penodol o'r economi, neu osgoi cryfhau rhai sectorau yn ormodol?
- Ai cymorth ac ymyrraeth economaidd 'pur' fydd yn sicrhau'r effaith orau, neu a oes mwy o fudd ac effaith economaidd o ganlyniad i ymyraethau ehangach sy'n ceisio gwella safon bywyd?
- Pa effaith y mae ffactorau ehangach yn eu cael ar yr iaith? Materion ynghylch globaleiddio; ehangu marchnadoedd llafur; diffygion o ran cyfleusterau cymdeithasol neu hamdden; diffygion isadeiledd trafndiaeth, tai neu ddigidol?

Wedi mynd ati i ateb y cwestiynau hyn ac eraill, gellir datblygu gwell dealltwriaeth o'r 'broblem'. Yna, gellir mynd ati i argymhell ymyraethau sy'n fwy tebygol o gael yr effaith sydd ei hangen.

Diffinio amcanion a rôl Arfor

Oherwydd y diffygion yn y dystiolaeth a'r data, does dim sail ddigonol i ddatblygu strategaeth neu gynllun gwaith penodol a hirdymor ar gyfer ymyraethau i'w cefnogi a'u hyrwyddo gan Arfor.

Trwy herio rhesymeg sylfaenol y rhaglen, mae cyfle i ail-ddiffinio amcanion a rôl Arfor wrth edrych i'r dyfodol, ac ym marn nifer o randdeiliaid mae angen gwneud hynny. Amlygwyd tri llwybr yn ystod y trafodaethau gyda'r rhanddeiliaid;

1. Roedd cryn gonsensws o blaid defnyddio capasiti Arfor i dreialu ymyraethau arloesol yn ogystal â'u gwerthuso. Mae gan Arfor gyfle i gychwyn proses systematig o dreialu a gwerthuso, gan ddatblygu ymyraethau lawr gwlad sydd yn effeithio ar yr economi a'r iaith yn gadarnhaol. Mae'r broses hon yn gyfle hefyd i ddatblygu dealltwriaeth o'r mathau o ymyraethau a phrosesau sy'n andwyol i'r Gymraeg.

Does dim rheswm mewn egwyddor i gyfyngu gwaith gwerthuso i brosiectau Arfor. Mae gwerthuso ymyraethau a phrosesau ehangach yn cynnig ffordd o ddatblygu dealltwriaeth heb y gost o dreialu a pheilota o'r newydd. Yn wir, mae rhai prosesau ac ymyraethau economaidd ehangach yn debygol o gael effaith mwy pellgyrhaeddol a nodedig ar yr iaith na rhaglenni peilot. Er enghraifft, mae datblygiad Yr Egin yng Nghaerfyrddin; datblygiadau ynghylch y dinas-ranbarthau neu fargen Canolbarth Cymru; neu'r broses o agor ysgolion neu feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg, oll yn debygol o gael effaith ar yr iaith sy'n mynnu gwerthusiad ieithyddol cynhwysfawr.

2. Mae'r pedwar awdurdod lleol sy'n rhan o Arfor yn rhannu nodweddion a heriau economaidd ac ieithyddol tebyg. Mae'r dystiolaeth a'r ymchwil yn cynnig bod sail i gynghorau Arfor gydweithio a chyd-ddatblygu ymatebion i'r heriau economaidd ac ieithyddol cyffredin sydd yn eu hwynebu. Trwy wneud hyn, bydd awydd a chyfle i'r awdurdodau hyn rannu arferion da a phrif-ffrydio ymyraethau llwyddiannus yn fewnol.
3. Mae cyfle hefyd i geisio manteisio ar statws Arfor fel lluosydd dylanwad y pedwar awdurdod lleol, i geisio hyrwyddo arfer da a dylanwadu ar strategaethau a pholisïau economaidd yn allanol. Gellir cynnig bwriad hirdymor i geisio prif-ffrydio ymyraethau ac arferion da yn ehangach nag ardal Arfor, ac i bwysleisio'r angen a'r potensial i gefnogi'r iaith drwy gynllunio economaidd.

Mae'r angen i ddatblygu dealltwriaeth yn gorgyffwrdd â phob llwybr. Mae casglu data, dadansoddi a gwerthuso, ac adeiladu ar yr hyn sydd yn cael ei ddysgu dros amser yn caniatáu datblygiad o fewn y tri llwybr. Mae gwell data a gwerthuso effeithiol yn cefnogi ymdrechion i ddatblygu ymyraethau arloesol; yn adeiladu'r sail i weithredu ar y cyd fel ardal Arfor; ac mae'r broses o gasglu data, gwerthuso a dadansoddi yn cefnogi ymdrechion i bwysu a dylanwadu yn allanol. Mae'r broses o gydlynu a rheoli datblygiad y ddealltwriaeth hon yn un a ddylai dderbyn sylw cyson a pharhaol.

5.2 Argymhellion Cychwynnol

Nid yw'r data a'r dystiolaeth sydd ar gael yn amlygu rhaglenni neu ymyraethau a fyddai'n sicr o gael effaith gadarnhaol ar yr economi a'r iaith. Mae'r her o ddeall effaith ymyraethau a phrosesau economaidd ar yr iaith yn parhau. Serch hyn, mae modd argymell gweithredoedd a fyddai'n dechrau'r broses o ddatblygu'r ddealltwriaeth honno, ac yn adnabod y mathau o ymyraethau sydd yn debygol o effeithio ar sefyllfa'r iaith yn bositif.

Mae'r argymhellion hyn yn cynnig llwybrau i'w dilyn yn y tymor byr, yn ogystal â thros gyfnod amser hirach. Diben yr adran hon felly, yw ceisio cyflwyno argymhellion a fydd yn galluogi Arfor i gyrraedd pwynt lle bydd modd adnabod a hyrwyddo ymyraethau llawr gwlad **sydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg**.³⁷

Argymhellion Tymor Byr

Argymhelliad 1: Sicrhau Effaith Llawr Gwlad

Nod: Sicrhau bod ymyraethau arloesol yn cael eu treialu ar lawr gwlad *ac yn cael eu gwerthuso*.

Tymor byr: Dylid parhau i gomisiynu a pheilota ymyraethau economaidd arloesol gyda'r nod o sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Dylid ystyried mynd ati i geisio adnabod ffynonellau ariannu ehangach, y tu hwnt i grant Arfor, i sicrhau parhad y gweithgareddau hyn. Dylid tynnu ar arbenigedd y 'Grŵp Ymchwil' (Argymhelliad 2) wrth geisio adnabod ffynonellau yn ogystal â datblygu meini prawf ar gyfer y gwaith peilota hwn.

O ganlyniad, bydd Arfor (a'r Grŵp Ymchwil yn benodol) yn casglu cronfa ddata ar gynlluniau ac ymyraethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar sefyllfa'r Gymraeg. Gellir ystyried prosiectau cyfredol rhaglen Arfor fel man cychwyn y broses hon o gasglu'r gronfa. Mae gwerthusiadau trwyadl o effaith y prosiectau hyn yn gam allweddol i lwyddiant a dylanwad y gronfa arfer da.

Argymhelliad 2: Sefydlu Grŵp Ymchwil

Mae datblygu dealltwriaeth o'r ffactorau a newidynnau economaidd sydd yn effeithio yn gadarnhaol neu'n andwyol ar niferoedd siaradwyr a bywiogrwydd ieithyddol yn gam hanfodol cyn y gellir datblygu ymyraethau llawr gwlad a strategol. Dylid ystyried sefydlu '**Grŵp Ymchwil**' neu arsyllfa i reoli'r gronfa data ac ymchwil ar y berthynas rhwng yr economi a'r iaith. Dylid ystyried aelodaeth eang i'r grŵp hwn, gan gynnwys ymchwilwyr, academyddion ac ymarferwyr ym maes yr economi a'r iaith. Ond dylid ystyried manteisio ar arbenigedd unigolion o gefndiroedd amgen, a chreu cyfleoedd ar gyfer lleisiau a syniadau newydd yn y maes.

³⁷ Gellir diffinio 'effaith gadarnhaol' fel cyfraniad at gynyddu niferoedd y siaradwyr a/neu ddefnydd, cynaliadwyedd neu statws y Gymraeg yn yr ardal. Ond mae sgôp i ddatblygu'r diffiniad hwn ymhellach yn sgil y ddealltwriaeth a fydd yn cael ei datblygu.

Dylai'r panel fynd ati i werthuso'r prosiectau arloesol sy'n gysylltiedig ag Arfor. Ond lle bo'n bosibl, dylid ymdrechu i adnabod cronfeydd a ffynonellau cyllid addas er mwyn sbarduno rhaglenni peilot ac arloesol pellach yn y maes, ac i gomisiynu ymchwil pellach i ymyraethau y tu hwnt i ardal Arfor, ond sydd yn debygol o effeithio ar yr economi a'r iaith yn yr ardal. Dylid ystyried y panel fel fforwm a fydd yn cyflwyno gwybodaeth ac argymhellion i Arfor, yn hyrwyddo cyfleoedd ac ymyraethau i'w prif-ffrydio.

Nod Tymor Byr: Drwy werthuso prosiectau llawr gwlad, bydd Bwrdd Arfor yn datblygu dealltwriaeth o'r cyswllt rhwng yr economi a'r iaith, a'r mathau o ymyraethau sy'n cael effaith bositif neu negyddol ar fywiogrwydd ieithyddol. Dylid ystyried ystod o ddyletswyddau megis;

- Gwerthuso prosiectau llawr gwlad³⁸
- Adolygu tystiolaeth ac ymchwil ehangach ynghylch materion economi>iaith
- Adolygu prosiectau sydd wedi bod ar waith yn y gorffennol (e.e. Llwybro)
- Comisiynu ymchwil lle bo'n bosibl, a chasglu data ehangach
- Datblygu methodoleg i werthuso effaith prosesau economaidd ar yr iaith
- Adnabod cyfleoedd strategol i ddylanwadu a phrif-ffrydio llwyddiannau o fewn, ac y tu hwnt i ardal Arfor

Nod Hirdymor: Dros amser, dylid anelu i ddatblygu'r Grŵp Ymchwil yn gronfa arfer da ac ymyraethau effeithiol ym maes economi>iaith. Dylid gweld rôl iddo hefyd fel grŵp i gynghori a chynnig argymhellion i awdurdodau Arfor ynghylch ymyraethau i'w prif-ffrydio, neu eu hyrwyddo yn ehangach.

Dylid ystyried mynd ati hefyd i ddatblygu'r ddealltwriaeth o'r broblem a'r ffactorau sy'n andwyol i sefyllfa'r Gymraeg. Y tu hwnt i'r her o bobl ifanc yn ymfudo, mae sgôp i archwilio gwendidau economi, isadeiledd a marchnadoedd llafur yr ardal. Dylid ystyried hefyd, yr angen i ystyried ffyrdd o ymateb i heriau globaleiddio economaidd i ddefnydd ieithoedd lleiafrifol, yn ogystal â'r gorgyffwrdd a'r angen i alinio â pholisïau iaith, addysg a chymdeithasol.

Argymhellion hirdymor

Argymhelliad 3: Datblygu a Sicrhau Effaith Strategol

Nod: Dylid ystyried ffurfioli strwythurau Arfor yn yr hirdymor er mwyn parhau i wireddu amcanion y rhaglen. Diben ffurfioli'r strwythurau fydd er mwyn;

- 1) Rhannu profiadau, arfer da, dealltwriaeth, data a gwybodaeth o fewn ardal Arfor.
- 2) Adnabod a datblygu gallu'r pedair sir i fanteisio ar gyfleoedd i ddylanwadu'n allanol.

³⁸ Bydd rhaglenni cyfredol Arfor yn cael eu gwerthuso fel rhan o'r prosiect, ond cynigir y dylid ystyried gwerthuso prosiectau, rhaglenni, datblygiadau ac ymyraethau economaidd ehangach nag Arfor.

Dylid ystyried defnyddio'r Grŵp Ymchwil fel cronfa o wybodaeth, data gwerthuso ac arbenigedd a fydd yn ei dro yn galluogi'r -pedair sir i ddylanwadu ar bolisiâu a strategaethau yn ardal Arfor a thu hwnt er mwyn ceisio prif-ffrydio ymyraethau llwyddiannus. Gallai strwythur ffurfiol hirdymor fel Arfor ystyried;

- Targedu addasiadau i strategaethau a buddsoddiad ieithyddol, economaidd; datblygu gwledig; a chorfforaethol yr awdurdodau unigol.
- Datblygu ymagwedd ranbarthol i'r heriau economaidd-ieithyddol lle bo'n briodol.
- Nodi a hyrwyddo buddsoddiadau a datblygiadau traws-sirol posibl a fydd yn debygol o effeithio'n gadarnhaol ar yr economi a'r iaith.

Tymor Hir: Yn y tymor hir, wedi ei grymuso gan well ddealltwriaeth o'r cyswllt rhwng datblygu economaidd a'r iaith, bydd ardal Arfor mewn safle gwell i ymgynghori a dylanwadu ar gyrff allanol a strategaethau economaidd ac ieithyddol ehangach. Gall ardal Arfor bwysu a mesur datblygu'r achos am gyllid pellach yn y dyfodol ar gyfer treialu rhaglenni a chynlluniau arloesol neu arbrofol. Yn y dyfodol, gallai Arfor dargedu;

- Strategaethau iaith ac economaidd Llywodraeth Cymru
- Paratodau a chynlluniau ar gyfer rhaglen sy'n dilyn y Cynllun Datblygu Gwledig
- Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a chyflenwyr hyfforddiant ac addysg
- Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Chytundeb Twf Canolbarth Cymru
- Addasiadau a datblygiadau i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
- Denu mwy o arian i ddatblygu a pharhau gwaith Arfor.

Argymhellion Ehangach

Argymhelliad 4: Effaith Covid-19 ar wariant Arfor

Gan ystyried effaith argyfwng Covid-19 ar wariant a gallu derbynwyr grantiau rhaglen gyfredol Arfor, mae perygl y bydd tanwariant o fewn cyfnod gweithredu'r rhaglen. Yn yr achos hwn, dylid ystyried comisiynu gwerthusiadau neu waith ymchwil pellach i geisio datblygu'r ddealltwriaeth ynghylch y cwestiynau allweddol a nodwyd ar ddechrau'r bennod hon. Gellir manteisio ar y cyfle er enghraifft, i ddysgu am resymau pobl ifanc dros adael ardal Arfor neu ddychwelyd iddi, neu i werthuso datblygiadau economaidd ehangach megis effaith ieithyddol Yr Egin, neu i archwilio twf anecdotaidd diweddar ymysg pobl yn dychwelyd i ardal Caernarfon.

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

